

y dinesydd

www.dinesydd.com

Maehefin 2008

Papur Bro Dinas Caerdydd a'r Cylch

Rhif 329

Clymblaid i redeg Caerdydd

Mae Plaid y Democratiaid Rhyddfrydol a Phlaid Cymru wedi cytuno ar ddogfen "Gweledigaeth Prif-ddinas" i reoli Cyngor Sir Caerdydd am y pedair mlynedd nesaf.

Yn dilyn yr etholiad ym mis Mai roedd y Rhyddfrydwyr, gyda 35 o seddi, 3 yn brin o fwyafrif llawn. Llwyddodd Plaid Cymru i gynyddu eu cynrychiolaeth ar y cyngor o 4 i 7 ac mae'r ddau grŵp wedi cytunio i gyd-weithio. Bydd y Lib Dem Rodney Berman yn parhau i fod yn Arweinydd y Cyngor gyda Neil McEvoy, Plaid Cymru a Judith Woodman, Lib Dem, yn Ddirprwy Arweinyddion.



Daeth atgofion lu yn ôl nos Wener, Mai 16eg, yn Ysgol Glantaf gyda noson yng nghwmni Huw Jones a Heather Jones, atgofion am gyfnod cyffrous y 60au a'r 70au a ddylanwadodd yn enfawr ar ddyfodol ieithyddol a gwleidyddol Cymru. Diolch i Huw a Heather am ail danio'r ysbryd.

TAITH CRICC (Dan 9) i'r GORLLEWIN

Dyma'r tro cyntaf i garfan oed ysgol gynradd fynd ar daith rygbi i gynrychioli CRICC. Mae'r diolch yn bennaf i fyfyrwr ifanc o'r enw Siôn Edwards sydd wedi rhoi o'i amser a'i sgiliau hyfforddi yn ddi-dâl am bron i ddau dymor.

Trefnodd Siôn daith i Aberystwyth, gyda help rhai o'r rhieni brwd, ar y penwythnos pan oedd Clwb Rygbi Cymry Caerdydd yn chwarae yno i ddatlu pen-blwydd CRICC yn ddeugain oed.

Yn wahanol i CRICC, ennil

gwnaeth CRICC ar y bore Sadwrn ac wedyn chwarae ac ennil pob gêm yn Llambed y diwrnod canlynol. Trechwyd Aberaeron, Aberystwyth [eto], Caerfyrddin a'r tîm cartref Llambed, a welir yn y llun gyda charfan CRICC.

Yn rhes flaen y llun, mae Rhydian Deighton-Jones yn dal y tlws a enillwyd yn yr Wyl ac yn yr ail res mae Tomos James yn dal y groes Geltaidd [symbol y clwb] o wydr nadd a gyflwynwyd fel anrheg i Glwb Llambed.

Yn rhes gefn y llun mae swyddogion CRICC, Rob Deighton-Jones [dyfarnwr]; Gareth Williams [a Siôn Edwards [hyfforddwyr].

Yn anffodus i CRICC, mae Siôn yn dilyn cwrs ôl-radd yn Lerpwl y tymor nesaf ac felly bydd angen rhywun tebyg, sy'n fodlon gwirfoddoli er mwyn rhoi cyfle i'r plant chwarae drwy gyfrwng ein hiaith.

Hoffai Pwyllgor CRICC ddiolch i Siôn am ei waith a dymuno pob llwyddiant iddo yn ystod ei gwrs ac yn ei yrfa yn y dyfodol.

Yng nghanol lludw folcanig Patagonia

Ar Ddydd Gwener 2 Mai fe ffrwydrodd llosgfynydd Chaitén yn Chile. Tasgodd y lludw o'r llosgfynydd, 760 milltir i'r de o brifddinas Chile, Santiago, gan gyrraedd yr Ariannin ble roedd yn disgyn fel eira trwchus. Roedd pentref Trevelin a thre Esquel, sy'n gartref i lawer o siaradwyr Cymraeg, yn llwybr y lludw.

Mae Gill Stephens o Riwbina yn yr ardal am flwyddyn yn dysgu Cymraeg yno ac mae James Williams o Lantrisant yn yr ardal hefyd yn gweithio i Fenter Iaith Patagonia. Da deall fod y ddau yn iawn er gwaethaf yr anghyfleustra a'r perygl.



Y Dinesydd

www.dinesydd.com

Golygydd y rhifyn hwn:
Llio Penri

Golygydd y rhifyn nesaf:
Peter Gillard

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer
rhifyn Gorffennaf 2008
erbyn 26 Mehefin at:**

Peter Gillard, Tŷ Llwyd, Drope Rd.,
Sain Siorys, Bro Morgannwg CF5 6EP
(e-bost: pagillard@yahoo.co.uk
Ffôn: 01446-760007).

MANYLION CYSYLLTU

Calendr y Dinesydd

Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd.,
Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ
(JamesEW@caerdydd.ac.uk;
029-2062-8754)

Hysbysebion

Siân Lewis, Menter Caerdydd, Tŷ Avocet, 88
Heol yr Orsaf, Ystum Taf, Caerdydd CF14
2FG (sian@dinesydd.com; 029-2056-5658)

Derbyn a dosbarthu copïau

Ceri Morgan, 24 Cwm Gwynlais,
Tongwynlais, Caerdydd CF15 7HU
(ceri33@btopenworld.com; 07774-816-209)

Rhoddion a thaliadau

Trysorydd y Dinesydd, d/o Menter Caerdydd,
Tŷ Avocet, 88 Heol yr Orsaf, Ystum Taf,
Caerdydd CF14 2FG

Noddi rhifynnau

ac ymholiadau cyffredinol
Peter Gillard 01446-760007.

Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan
Bwyllgor *Y Dinesydd*.

Fe'i cysodir gan Penri Williams
a'i argraffu gan

Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

CYFRANNU'N ARIANNOL

Mae parhad *Y Dinesydd* yn dibynnu ar
roddion gan unigolion a
chymdeithasau. Rydym yn croesawu
pob rhodd, bach a mawr. Anfonwch at:
Trysorydd y Dinesydd, d/o Menter
Caerdydd, Tŷ Avocet, 88 Heol yr
Orsaf, Ystum Taf, Caerdydd. CF14
2FG.

Cydnabyddir cefnogaeth



BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Ysgol y Wern

Braint i'r ysgol oedd derbyn gwahoddiad
i'r Senedd i gyflwyno adroddiad ar
ymddygiad a phresenoldeb i Jane Hutt
A.S. Roedd y Gweinidog yn awyddus i
dderbyn yr adroddiad wrth ddisgyblion
oedd wedi bod yn rhan o'r adolygiad.

Bu ymwelwyr o Goleg Amddiffyn
Brenhinol yn Ysgol y Wern yn
ddiweddar i gael blas o addysg yng
Nghymru. Croesawyd yr ymwelwyr o
wahanol rannau o'r byd a'u tywyswyd o
gwmpas yr Ysgol gan aelodau Blwyddyn
6 o Gyngor yr Ysgol a'r Pwyllgor Eco.

Fe fydd tîm Cwis Llyfrau Blwyddyn 4
yn cynrychioli'r Ysgol a'r Sir yn y
Rownd Genedlaethol yn Aberystwyth
ym mis Mehefin. Aelodau'r tîm yw
Esyllt Rosser, Sara Davies, Alys
Howells, Branwen Jones, Elin Lewis,
Iwan Jones ac Adam Shelley. Pob lwc yn
Aberystwyth. Llongyfarchiadau hefyd i
dîm Bl 6 a ddaeth yn gydradd ail yn y
gystadlaeuath.

Llongyfarchiadau i Sara Williams,
disgybl ym Mlwyddyn 6 am ddod yn ail
yng Nghystadlaeuath Prosiect Gwyrdd a
drefnwyd gan Gyngor Sir Caerdydd i
hybu ailgylchu. Derbyniodd Sara
dystysgrif a thocyn llyfr fel gwobr.



**Disgyblion Ysgol y Wern: Rebecca
Williams, Huw Howells a Rhys Jones.**



Tîm Cwis Llyfrau Blwyddyn 4

DA IAWN TI A TI!

Llongyfarchiadau i Gruffydd a Gwion
Lloyd Jones ar ennill gwobr
Cystadleuaeth mis Mai yn y Dinesydd.
Roedd y ddau yn gwybod mai Dic Jones
fydd yr Archdderwydd newydd yn
Eisteddfod Caerdydd. Cofiwch wisgo'ch
crysau T newydd yn y Steddfod hogia!

Pedwar yn ymgiprys am wobr 'Dysgwr y Flwyddyn'

Cynhelir rownd derfynol 'Dysgwr y
Flwyddyn' yng Nghastell Caerdydd ar
nos Fercher 6 Awst yn ystod Eisteddfod
Caerdydd. Y beirniaid fydd Sara
Edwards, Siân Lloyd ac Aled Davies.
Eleni dethlir y ffaith fod y gystadleuaeth
hon yn bump ar hugain oed. Y pedwar i
ymddangos ar y noson fydd Michael
Evans a ddaw yn wreiddiol o Gaerdydd,
Martin Baldry o Ddyffryn Conwy ond
gynt o Sheffield, Jenny Hen o Gwm
Glyn Ebwy a Madison Tazu o Aberteifi.
Pob lwc i'r pedwar.

Sefydlu gweinidog yng Ngwaelod y Garth

Ar yr 19 Ebrill, sefydlwyd y Parch R.
Alun Evans yr Eglwys Newydd yn
weinidog ar Capel Bethlehem Gwaelod y
Garth ar ben ei ddyletswyddau fel
gweinidog Capel Bethel Caerffili.
Dymunwn yn dda iddo yn y ddau gapel.

Dryswch

Creuwyd peth dryswch a phryder
ymhlith aelodau Adran Economeg a
Chymdeithaseg Urdd Y Graddedigion
pan gawsant lythyr yn ddiweddar yn eu
hysbysu am gynhadledd undydd sydd
i'w chynnal ar 28 Mehefin. Llywydd yr
adran yw Roy Thomas, Gwenvô. Yn y
llythyr, o ganlyniad i wall cyfrifiadurol,
fe osodwyd ei enw mewn bocs, a bu
rheid anfon nodyn pellach i'r aelodau i
gadarnhau bod eu llywydd yn dal ar dir
y byw! Pan gafodd Dafydd Glyn Jones
wybod am hyn death yr awen iddo mewn
fflach:

Roy Thomas

Er amled y teyrngeda' ac, ar dy ôl
'Cardiau lu a bloda'
Dan nawdd Duw daw newydd da:
Roy Thomas, rwy't ti yma!

Cynorthwyo Pobl Ifanc y Wladfa

Mae Urdd Gobaith Cymru wedi cynnig llety a hyfforddiant yn rhad ac am ddim i ddau o bobl ifanc y Wladfa ym Mhatagonia yng ngwersyll yr Urdd, Glan-llyn am 6 mis. Fanna byddant yn cael dianc rhag y llwch a'r lludw, yn dilyn ffrwydrad llosgfynydd Chaitén yn Chile sydd wedi effeithio ar Esquel a Threvelin, tra'n derbyn hyfforddiant yn arwain at gymhwyster Gweithgareddau Awyr Agored trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn sgil ein trafferthion a'r effaith anffodus ar ddarpariaeth gwersi a gweithgareddau Cymraeg yma yn ardal yr Andes eleni rydym yn awyddus iawn i fanteisio ar y cynnig hwn.

Ond er mwyn ei dderbyn mae'n rhaid i ni ddod o hyd i £2,000 ar gyfer tocynnau awyren i'r ddau. Felly rydym wedi lansio apêl i'n helpu codi'r arian hwn. Gwerthfawrogwn unrhyw gyfraniad tuag at yr achos hwn ta waeth mor fach. "Dyfal donc a dyr y garreg!". Os ydych chi am gyfrannu mae modd i chi wneud hynny trwy ddanfôn sic at Mentrau Iaith Cymru, Y Sgwâr Llanrwst, LL26 0LG a fydd yn gweinyddu'r apêl ar ein rhan yng Nghymru. (Dylech ysgrifennu Apêl Ysgol Gymraeg yr Andes ar gefn pob sic.)

Croeso'n ôl i Beti a Huw o ganol lludw'r Wladfa

Ym mis Ebrill bu Beti George a Huw Meredydd cynhyrchydd Radio Cymru draw yn y Wladfa a'r Andes i recordio cyfres o raglenni ar gyfer Radio Cymru. Yn ystod eu hymweliad ffrwydrodd llosgfynydd yn yr Andes a gwasgarwyd y lludw a'r llwch am gannoedd i filltiroedd i lefydd fel Trevelin ac Esquel ac i Ddyffryn Camwy yn y Wladfa. Mae Beti a Huw wedi bod yn disgrifio'u profiadau yn y wasg, y radio ac ar S4C.

Siom i Sarah

Ymddangosodd Sarah Lark, cyn ddisgybl yn Ysgol Uwchradd Caerdydd, ar y rhaglen deledu 'I'd Do Anything' sy'n chwilio am gantores i bortreadu'r cymeriad Nansi yn y sioe gerdd 'Oliver' yn y West End yn Llundain. Roedd hi'n un o chwech ar ôl yn y gystadleuaeth tan 4 Mai pan gollodd ei lle wedi i Andrew Lloyd Webber benderfynu nad hi oedd y person roedd yn edrych amdani i fod yn Nanso. Roedd tair Cymraes yn y gystadleuaeth. Pob llwydd i Sarah yn y dyfodol gan fod llais ardderchog ganddi hi.

Merched y Wawr



Mae Eirlys Davies, Radur, wedi ei phenodi yn gynrychiolydd Merched y Wawr yn ne Cymru. Bydd hi'n rhoi cyhoeddusrwydd ac yn denu aelodau newydd i'r mudiad.

Newyddion

Llongyfarchiadau i

Jean Ewart Jones Rhiwbeina ar ddathlu ei phen-blwydd yn bedwar ugain oed ar 11 Mai.

Newid swydd

Ar ôl bod yn brifathro Ysgol Gyfun Plasmawr ers sefydlu'r ysgol mae Geraint Rees wedi ei benodi bellach fel prifathro ymgynghorol uwchradd i Awdurdod Addysg Caerdydd. Llongyfarchiadau mawr iddo am ei waith called yn llywio Ysgol Gyfun Plasmawr dros y blynnydoedd.

Gwesty'r Parc yn ailagor

Ychydig ar ôl y Nadolig 2006, cafwyd tân yng Ngwesty'r Parc yng nghanol y ddinas ac o ganlyniad bu'r gwesty ar gau am bymtheg mis i gael ei adnewyddu. Erbyn hyn mae'r gwesty wedi ail agor ar ei newydd wedd. Mae'r gwesty yn un o'r rhai hynaf yng Nghaerdydd ac yn cyflogi tua 130 o staff.

Cydymdeimlo â

John Phillips y Ddraenen a'i deulu ar gollu ei wraig Bet ar 6 Mai yn ysbyty'r Brifysgol wedi cystudd byr. Bu'r angladd yn Amlosgfa'r Ddraenen ar 15 Mai.

Llongyfarchiadau i

Rhian Wyn Thomas o'r Fro ar ennill cystadleuaeth golff agored yng Nghlwb Golff y Pil a Chynffig ar 7 Mai. Dyma'r tro cyntaf i Gymraes ennill y gystadleuaeth hon ers pedair blynedd ar bymtheg.

Caerdydd yn Cefnogi'r Eisteddfod

Yn dilyn cyfarfod llwyddianus rhwng y cynghorwyr a swyddogion Cyngor Sir Caerdydd, mae'n dda gan y Dr Delme Bowen ddatgan y bydd y Sir bellach yn cynnal stonin sylweddol ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol. Bydd yr arddangosfa yn cynnwys yr ardd fuddugol a ddefnyddiwyd yn y sioe flodau yn Chelsea a oedd yn deyrnged i'r Gleision. Bydd arweinydd y Cyngor, y Maer, a chynghorwyr eraill hefyd yn mynychu y brifwyl.

Penderfynodd y Sir hefyd beidio a chodi tâl am barcio. Felly, fe gaiff cerbydau sydd yn ymweld â'r eisteddfod barcio am ddim yn y safleodd dynodedig.

Swydd newydd i Guto

Yn sgil ethol Boris Johnson yn Faer Llundain penodwyd Guto Harri yn Gyfarwyddwr Cyfathrebu i'r Maer newydd. Pob llwydd iddo yn ei swydd newydd.

Carreg Filltir i griced yn y ddinas

Chwaraewyd y gêm griced gyntaf yn stadiwm newydd sbon Swalec yng Ngerddi Soffia ar nos Wener 9 Mai rhwng Morgannwg a Swydd Gaerloyw. Collodd Morgannwg o chew wiced. Costiodd y stadiwm £9.4 miliwn i'w hadeiladu ond mae canmol ar y cyfleusterau a ddarparwyd diolch i nawdd Swalec.

Merch o Dreganna yn ennill ysgoloriaeth

Llongyfarchiadau i Gwenllian Davies, disgybl 11 oed yn Ysgol Gymraeg Treganna, ar ennill ysgoloriaeth bale i Ysgol Ddawnsio Elmhust sy'n rhan o Gwmni Balé Brenhinol Birmingham. Roedd 600 wedi ymgeisio am yr ysgoloriaeth. Pob llwyddiant i Gwenllian.

Cyngerdd amser cinio yn Rhiwbeina

Mae Capel Beulah yng nghanol pentre Rhiwbeina wedi trefnu nifer o gyngherddau amser cinio. Yn yr un cyntaf cafwyd datganiadau ar y Delyn gan Meinir Heulyn ac yn yr ail gyngerdd a gynhaliwyd ar yr 21 Mai cafwyd perfformiad graenus a phleserus gan y baritone lleol Paul Carey Jones a Jane Samuel wrth y piano. Mae Paul, sy'n gyn-ddisgybl yn Ysgol Gyfun Glantaf, yn gyn-enillydd Ysgoloriaeth W. Towyn Roberts yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Pob llwydd iddo yn ei yrfa broffesiynol..

West is Best?

I Ddyffryn Aeron yr aeth taith flynyddol Carnhuanawc eleni. Richard Jones, un o gyfeillion Cymdeithas Carnhuanawc, sydd â fferm yn Nyffryn Aeron oedd yn garedig iawn wedi'n gwahodd. Roedd yn awyddus iawn inni weld gogoniannau ei filltir sgwâr.

Aeth Keith ein harweinydd a ni i yr gyntaf i weld un o berlau Llanbed sef yr hen Ysgol Ramadeg sydd heddiw'n ganolfan gymdeithasol. Bu John Williams, yr athro ymroddgar a dawnus yn brifathro'r ysgol am gyfnod. Cymaint yn wir oedd ei enw da fel mai yma yr anfonodd Sir Walter Scott ei fab Jonathan i gael ei drwytho yn y clasuron er mwyn ennill cymwysterau digonol ar gyfer Rhydychen. Ac er nad oedd Jonathan yn or-hoff o ddysgu cyfaddefodd iddo fwynhau ei ddyddiau a'i addysg yn y dref a chafodd fynediad i Rydychen!

Cerdded wedyn i'r brifysgol sefydlwyd yn 1822 gan Thomas Burgess Esgob Tŷ Ddewi ar y pryd, a chael ein tywys o gwmpas gan y caplan i'r capel Fictorianaid bychan lliwgar, yr hen neuadd a'r llyfrgell, cyn mynd i Lyfrgell Roderic Bowen - ystafell newydd fydd yn gartref o fis Medi ymlaen i hen lyfrau prin a llawysgrifau. Cawsom y fraint o gael cip ar rai ohonynt oedd wedi cael eu gadael allan ar ein cyfer.

Erbyn cyrraedd Sychbant, fferm Richard, roedd gwledd yn fwyd ac yn olygfeydd yn ein haros, y môr a thref Aberaeron ar y naill law a Dyffryn Aeron yn ei holl ogoniant ar y llall. Wedi gloddesta ar wledd oedd wedi ei pharatoi ar ein cyfer aeth Richard a ni am dro o gwmpas y fferm a chawsom gyfle i werthfawrogi'r bywyd gwyllt, blodau'r perthi, yn eu mysg flodau'r gog, y botwm crys, y tegeirian y ddeilen gron a bwtsias y gog Gymreig bersawrus, ac i'r rhai ohonom oedd yn adarwyr roedd gweld a chlywed y tingoch, yr aderyn bach swynol hwnnw sy'n galw heibio yn yr haf yn fonws. Difyr oedd clywed Richard yn adrodd storïau am rai o gymeriadau'r fro fel y Teiliwr Bach.

Doedd Richard ddim am inni fynd 'nôl i Gaerdydd heb ymweld â dau le arall yn ei filltir sgwâr sef Neuadd Lwyd, y pentref hwnnw a fu'n fan hyfforddi dynion ar gyfer y genhadaeth dramor a Henfynyw. Yng nghapel Neuadd Lwyd dangoswyd inni Feibl yn iaith Madagascar - rhodd gan bobl y wlad honno i'r pentref hynod hwn ac mae'r cysylltiad yn dal yn fyw rhwng y ddwy wlad hyd heddiw

Yr ail le oedd eglwys Henfynyw. Yma



yn y fynachlog, er nad oes ôl ohoni heddiw, y cafodd Dewi Sant ei addysg ac ar dinc mwy bydol, yn y tŷ mawr tu ôl i'r eglwys y ffilmwyd rhan o'r ddrama gyfres Y Teulu.

Diwrnod i'w gofio os bu un erioed, ac yn bendant "west" oedd y "best" y Sadwrn hirfelyn tesog hwnnw. Diolch yn arbennig i Richard ac i Keith.

Catherine Jobbins

Rhodd i Ysgol Gymraeg Treganna

Yn ddiweddar derbyniodd yr ysgol rodd o gadair eisteddfod y bardd J.M. Edwards y Barri. Fe'i cyflwynwyd i'r ysgol gan Emyr Edwards mab hynaf y bardd. Enillwyd y gadair mewn eisteddfod lleol yn Hen Dŷ Gwyn ar Daf nôl yn 1923, y gyntaf o nifer o gadeirau a ddaeth i'w ran yn ystod ei oes gan gynnwys tair cadair yn yr Eisteddfod Genedlaethol rhwng 1936 a 1945.

Ail Ysgol Gymraeg i Gasnewydd

Oherwydd y twf mewn galw am addysg cyfrwng Gymraeg yng Nghasnewydd mae'r Awdurdod Addysg Lleol yn bwriadu agor ail Ysgol Gynradd Gymraeg yn y ddinas ym mis Medi eleni.

Mehfin yw Mis Ymwybyddiaeth Ganser i Ddynion

Annwyl Olygydd,

Fel elusen cancer blaenaf Cymru, sydd a'i brif swyddfa yng Nghaerdydd, mae gan Tenovus hanes hir a nodedig. Yn wir, arweiniodd gwaith a wnaed yn un o'n canolfannau ymchwil at ddatblygu Zoladex, yr ail gyffur mwyaf llwyddiannus i drin cancer y brostad.

Ond nid ariannu ymchwil pwysig yw unig waith Tenovus: rydym hefyd yn trin cleifion sy'n dioddef o ganser, a darparu cefnogaeth a gofal sydd eu hangen iddynt yn y gymuned leol.

Fis Mehfin eleni mae arnom angen eich cefnogaeth chi, eich cydweithwyr a'ch cyfeillion trwy godi arian at Tenovus a chefnogi ein hymgyrch i greu ymwybyddiaeth cancer ymhlith dynion.

Bob dydd mae tri ar hugain o ddynion yng Nghymru yn derbyn diagnosis o ganser am y tro cyntaf, yn ôl yr ystadegau.

Os hoffwch chi godi arian ar ein cyfer byddwn yn falch o glywed oddi wrthydych; rydym yn dibynnu ar eich cefnogaeth. I gofrestru eich digwyddiad ac am ragor o wybodaeth sut all Tenovus gefnogi chi, cysylltwch â fi - mae'r manylion isod.

Diolch,

Yn gywir,

Cerys Jones

Codydd Arian Cymunedol

Ffôn: 029 20482000

Symudol: 07889 682388

E-bost: cerys.jones@tenovus.com

Canmoliaeth i gyfraniad cwmni i'r economi lleol



Alun Jones (Prifweithredwr Menter a Busnes) gyda Gareth Jones AC.

Mae cwmni datblygu economaidd, sydd wedi cynorthwyo miloedd o bobl i gychwyn busnes, wedi cael ei ganmol gan aelod blaenllaw o'r Cynulliad am ei gyfraniad i'r economi lleol.

Sefydlwyd Menter a Busnes, sydd wedi ei leoli ym Mae Caerdydd, yn 1989 gyda'r bwriad o feithrin diwylliant mwy mentrus ymhlith siaradwyr Cymraeg ac ers hynny mae wedi cynorthwyo dros 6,000 o bobl i ddatblygu dros 2,000 o fusnesau newydd ar draws Cymru. Mae hefyd wedi cynorthwyo busnesau sydd eisoes yn bodoli i dyfu a datblygu trwy eu helpu i ennill rhagor o waith gwerth miliynnau o bunnoedd.

Dywedodd Gareth Jones AC, sy'n Gadeirydd Pwyllgor Dysgu a Menter y Cynulliad: "Mae gan Menter a Busnes rôl bwysig i'w chwarae wrth helpu i gryfhau a thyfu'r economi Gymreig. Mae adfywio'n cymunedau yn un o amcanion canolog Llywodraeth Cymru'n Un yn y

Newyddion

Aelwyd y Waun Ddyfal yn Diddanu

Nos Lun 1 Mai, dan nawdd Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina, cynhaliwyd cyngerdd gan Aelwyd y Waun Ddyfal yng Nghapel Bethel Rhiwbeina i godi arian tuag at yr Eisteddfod. Cafwyd noson ardderchog yng nghwmni'r bobl ifanc hynod ddawnus yn y côr. Yr arweinydd oedd Huw Ffowcs a'r cyfeilydd oedd Ieuan Jones a chyflwynydd y noson oedd Llŷr Lewis.

Tlws i Steffan Jones y Barri

Mae Steffan Jones 15 oed yn ddisgybl yn Ysgol Gyfun Bro Morgannwg a chododd £200 am yr ail dro yn y digwyddiad 'Ar dy Feic' tuag at elusen Barnados. Trefnir y digwyddiad hwn gan bapur newydd yr Echo. Derbyniodd Steffan Dlws Coffa Reg Braddick gan mai fe oedd wedi codi'r mwyaf o arian dan 16 oed. Llongyfarchiadau iddo am ei gamp.

Pennaeth y Gwasanaeth Sifil yng Nghymru yn ymddeol

Ymddeolodd Syr John Shortridge o'i swydd fel pennaeth y Gwasanaeth Sifil yng Nghymru ar 30 Ebrill. Bu'n gyfrifol am weinyddiad y Cynulliad ers y dechrau a chyflawnodd ei ddyletswyddau gyda graen. Ei olynydd ydy Gillian Morgan a fu'n brifweithredwraig yn yr NHS ac yn gyn feddyg ac yn dod o Lwynypia yn y Rhondda yn wreiddiol. Pob llwydd iddi hi yn ei swydd newydd.

Cynulliad. Mae'r gwaith o gynorthwyo pobl leol i gychwyn busnesau newydd yn ogystal a helpu busnesau sy'n bodoli i ennill mwy o waith yn cyfrannu'n sylweddol at y nod yma."



Ar 26 Ebrill priodwyd Gwion ap Rhisiart a Lowri Clements yng Nghapel Bethlehem Gwaelod y Garth.

Anrhydeddu cyn-ddarlledwr

Llongyfarchiadau i Owen Edwards Llandaf ar dderbyn gwobr 'Cyfrwng' cynhadledd flynyddol yn y Llyfrgell Genedlaethol ym mis mai am ei gyfraniad clodwiw ym myd darlledu yng Nghymru dros y blynyddoedd. Fe oedd Prifweithredwr cyntaf S4C a bu'n gyflwynydd ar y rhaglen deledu 'Heddiw' ac yn Brifweithredwr BBC Cymru.

Croeso'n ôl am dro i Ioan

Daeth Ioan Gruffudd yr actor draw o'r Amerig ar gyfer noson wobrwyo BAFTA Cymru yng Nghanolfan y Mileniwm ar nos Sul y 27 Ebrill gan dderbyn Tlws Siân Phillips am ei gyfraniad sylweddol ym myd ffilm a theledu. Cyflwynydd y noson oedd Gethin Jones a'r ddau yn gyn-ddisgyblion yn Ysgol Gyfun Glantaf. Llongyfarchiadau iddyn nhw.

Bydd Ioan Gruffudd yn portreadu Tony Blair mewn ffilm am yr Arlywydd George W. Bush a gyfarwyddir gan yr enillydd Oscar Oliver Stone. Mae'r ffilmio eisoes wedi dechrau a gobeithir rhyddhau'r ffilm orffenedig yn yr Unol Daleithiau yn yr Hydref. Ioan ydy'r ail i bortreadu Tony Blair gan i Michael Sheen, yr actor o Faglan Port Talbot bortreadu'r cyn brifweinidog mewn drama ar Sianel 4 a'r ffilm 'The Queen' ychydig flynyddoedd yn ôl



Cystadleuaeth 25



Mae Neuadd Dewi Sant, Caerdydd, yn dathlu 25 mlynedd eleni. I nodi'r achlysur mae'r Neuadd yn cynnig tocynnau arbennig i un o nosweithiau'r Prom ym mis Gorffennaf.

I ennill tocynnau ar gyfer Noson Lluniau a Delweddau y Prom ar nos Fercher 23 Gorffennaf atebwch y cwestiwn hwn:

'Pwy yw Cyfarwyddwr Artistig Lloyds TSB Proms Cymru Caerdydd?'

Danfongwch eich ateb gyda'ch enw a chyfeiriad i SDHpress@cardiff.gov.uk
Ffôn: 029 2087 8533

Noson o luniau a delweddau ar gân. Arddangosfa sain ydi Pictures at an Exhibition Mussorgsky sy'n deffro yn y cof gestyll rhamantaidd, claddgelloedd a chymeriadau rhyfeddol, yn cyrraedd ei hanterth â gweledigaeth o borth mawr Kiev, tra mae Debussy yn tynnu llun cymylau argraffiadol, gŵyl haf ddisglair a'r môr yn arian yng ngolau'r lloer. At hyn ehangder rhamantaidd Concerto Soddgrwth Cyntaf Saint-Saëns gyda'r unawdydd Sonia Wieder-Atherton, a dyma i chi gyngerdd a erys yn y cof.

Gem y Tasai yn Wembley

Llongyfarchiadau mawr i'r Adar Gleision ar eu perfformiad ardderchog yn Rownd Derfynol Cwpan yr F.A.

'Roedd hi'n eironig iawn taw camgymeriad y gol-geidwad a'n gadawodd i lawr, fel y gwnaeth gol-geidwad Arsenal dro da a Chaerdydd yn 1927.

Clywais lawer o tasai a phetasai ar ol y gêm. Tasai Aaron Ramsey wedi chwarae o'r dechrau; tasai Neil Alexander yn dal i chwarae yn y gôl i Gaerdydd; tasai Fowler 'fit' wedi gallu chwarae; tasai'r dyfarnwr ddim wedi gweld llawiad Loovens cyn ei 'gôl'ac yn y blaen.....

Hoffwn gynnig un 'tasai' arall - tasai 20,000 o'r 'cefnogwyr' a aeth i Wembley wedi cefnogi'r Ddinas yn ffyddlon dros y tymhorau, buasai Earnshaw, Jerome a Chopra gyda ni o hyd, efallai.

Edrychwn ymlaen at weld y torfeydd yn tyrru i barc Ninian y tymor nesaf i sicrhau dyrchafiad i'r Brif Adran, ac i'w croesawu i'r stadiwm newydd dechrau tymor 2009/10.

Ie! Dyddiau cyffrous i'r Adar Gleision! a hyfryd yw deall bydd y 'Blues' yn talu rhent am ddefnyddio'r stadiwm newydd. Rygbi yn noddi pêl-droed !?!

Mewn Gobaith

John Albert

Fred Keenor

(Capten Caerdydd yn y Ffeinal ym 1927)

Mewn ymateb i'r darn ar dudalen 2 o rifyn Mai 2008 Y DINESYDD am y lle yn yr Egwyls Newydd y bu i Fred Keenor (1894-1972) godi tŷ i'w deulu, medraf ond rhoi syniad y dylai fod pobl yn yr ardal (sy'n para i fod ar dir y byw) sy'n cofio am Fred yn byw yno; neu (os digwyddir ei fod ar y ffôn bryd hynny) efallai bod Llyfr Ffôn y 1950au a'i enw ynddo. Y Llyfr Ffôn cynharaf sydd gennyf yw am 1992, ac ynddo ceir person o'r enw 'W R Keenor, 11 Greenfield, Whitchurch, Caerdydd a'i rif ffôn (sydd ar gael gan Olygydd y Dinesydd). Tybed a yw'r 'WR Keenor' hwn yn perthyn i Fred, a bod y gyfrinach ganddo?

Cofiaf ar sawl tro tua 1950 chwarae gemau chwist gyda Fred Keenor, yntau yn gweithio i SPD (Speedy Parcel Delivery - Cwmni Israddol i Unilever a oedd yn sefydlog yn Nociâu Caerdydd bryd hynny). Buasai Clwb Hamdden (Social Club) SPD yn cynnal nosweithiau 'Gyrfa Chwist' ar brydiau

Genedigaethau

Llongyfarchiadau i

Marc a Nia Evans Tre'r Faerdy (Grangetown) ar enedigaeth Edith Alys yn Ysbyty'r Brifysgol ar y 27 Ebrill. Wyres i Gruff ac Eifiona Aberhonddu a Siarllys a Barbara Evans Rhiwbeina.

Llongyfarchiadau i

Dewi Wyn a Liliana Evans Penarth ar enedigaeth Non Eleri yn Ysbyty Llandochau ar y 25 Ebrill. Chwaer fach i Emrys Cynan ac Wyres i Nan Evans Aberdaron a Tecwyn ac Elvira Williams Esquel, Patagonia.

Llongyfarchiadau i

Aled ac Angharad Stephenson Llanisien ar enedigaeth Lili Nel ar 10 Ebrill. Chwaer fach i Magi Gwen ac wyres arall i Dr Ann a Peter Stephenson Rhiwbeina ac wyres i Stella Mair ac Iwan Thomas Caerdydd.

Chwaraeon

Pob lwc i Nicole Cooke

Bydd y seren seiclo Nicole Cooke o'r Wig ym Mro Morgannwg yn cystadlu yn y ras heol i ferched yn y chwaraeon Olympaidd yn Beijiing ar y 9 Awst. Pob lwc iddi gan obeithio bydd hi'n dwyn medal nôl i Gymru.

Stadiwm newydd i Glwb yr Adar Gleision

Erbyn hyn mae'r gwaith o godi stadiwm newydd i Glwb Pêl Droed Dinas Caerdydd yn Lecwydd yn mynd rhagddo yn gyflym a'r gobaith ydy bydd y stadiwm, fydd yn dal 30,000 ac ar gost o £46miliwn, yn barod erbyn dechrau tymor 2009/10.

mewn Neuadd yn Charles Street (tu cefn i Marks and Spencer) bryd hynny - ac fe'm gwahoddwyd yno droeon. Felly cefais y fraint o gwrdd â Fred Keenor - a chwarae cardiau gydag e yn hytrach na'r bêl gron! Cofiaf am Fred fel dyn o natur ffein a charedig ei ysbryd, a mae'n dda bod darn amdano yn Gwyddoniadur Cymru.

Dymunwn yr un lwyddiant i'r BLUEBYYRDS yn 2008/09!
Oddiwrth: JDR THOMAS, Gresford,
WRECSAM Tel: 01978 856771

Annwyl Olygydd

Ysgrifennaf ar ran Pwyllgor Ysgol Trevelin, un o Ganolfannau Cymraeg Godre'r Andes ym Mhatagonia, i gynnig cyfle unigryw i bobl sy'n dysgu Cymraeg i dreulio amser yn y Wladfa. Yr ydym, fel ysgol sydd yn arbenigo mewn dysgu Cymraeg fel ail iaith, yn gwerthfawrogi pwysigrwydd yr awyrgylch ieithyddol ehangach i'r rhai sydd yn ceisio dysgu ieithoedd.

Ar hyd y blynyddoedd yr ydym wedi gweld pa mor werthfawr yw danfon ein dysgwyr ni i Gymru, oddi wrth ddylanwad y Sbaeneg a'r demtasiwn i'w siarad trwy'r amser tu fas i'r gwersi ffurfiol. Gwerthfawrogwn hefyd y problemau tebyg gyda dylanwad y Saesneg yng Nghymru. Teimlwn felly bod gyda ni adnodd gwerthfawr yma yn y Wladfa, a all fod o gymorth i chi wrth ystyried mai un o'r prif broblemau gyda chysiau preswyl yng Nghymru yw ei bod mor anodd i greu cyfleon i'r dysgwyr ymarfer eu Cymraeg yn ystod eu hamser hamdden ac yn gymdeithasol. Oherwydd yn y Wladfa mae gyda ni sefyllfa unigryw iawn ble mae'r Gymraeg yn iaith fyw ond cyfleon i siarad Saesneg yn brin iawn, iawn. Felly hoffai Ysgol Trevelin dynnu eich sylw at gynnig arbennig ar gyfer dysgwyr y Gymraeg o Gymru yma yn y Wladfa.

Yr ydym yn cynnig darpariaeth ar bob lefel ac mae modd i ni gynnig gwersi grŵp ar wahân i grwpiau o faint digonol neu integreiddio dysgwyr i'n darpariaeth ni.

Mae pob pecyn yn gallu cynnwys llety lleol (gyda siaradwyr Cymraeg), cymdeithasu â'r gymuned Gymraeg leol a gwersi Cymraeg yn Ysgol Gymraeg Trevelin. Ond trwy weithio mewn partneriaeth gyda chwmmi teithio lleol yr ydym hefyd yn gallu cynnig pecyn sydd yn cynnwys tipyn o wyliau yn Buenos Aires ar y ffordd yma ac ar y ffordd yn ôl hefyd. Fe fyddai modd trefnu i'r dysgwyr gael eu tywys yn Buenos Aires gan siaradwyr Cymraeg. Os hoffech fwy o wybodaeth, neu eisiau trafod teilwra pecyn unigryw at eich anghenion eich hun yna mae croeso cynnes i chi gysylltu â fi trwy e-bost yr ysgol, sef ysgolgymraegtrevelin@gmail.com Gill Stephen. Tiwtor / Profesora Ysgol Gymraeg yr Andes / Centros Galeses de la Cordillera Rivadavia 1065 Esquel 9200 Chubut Patagonia Argentina

ORIAU HAPUS



Nansi Valentine, dim ond 95 oed a'i merch Elisabeth

Mae'r oriau hapus i ddysgwyr yn datblygu ac yn cynyddu yn yr Eglwys Newydd.

Awr newydd sbon ers dechrau Ionawr eleni yw 'Bore Sadwrn Misol Hapus' gyda Janet 'Gwyllt' Wilde a Gwilym 'Parchus' yng Nghaffi Copra, Gwesty Pentref, Coryton, rhwng 11 a 12. Ein gobaith yw cyfarfod ar ail fore Sadwrn o'r mis os medrwn – cyfarfod nesaf: 14 Mehefin. Mae'n fenter newydd – cynhaliwyd 5 cyfarfod hyd yn hyn, cyfanswm o 36 a 20 wedi dod o leiaf unwaith. Croeso cynnes i bawb. Sgwrsio anffurfiol a choffi blasus!

A wnewch chi hefyd gofio am 'Pnawn Sul Hapus Misol', 2.45 – 4.00 yn nhŷ John a Thelma Dann, 8 Heol Santes Marged, Yr Eglwys Newydd. Ceir 8 ohonom – Jan (Tabernacl, Yr Eglwys Newydd) as Esther (Salem, Tonteg) yn wynebau newydd eleni. Y pedwar arall yw Nic o Benarth, Gill, Llaineirwg, Dorothy, Pantmawr a Gwilym. Darllen a deall o'r Beibl, 2.45 – 3.30 yna banded a bisgedi blasus Thelma! Cyfarfod nesaf: 22 neu 29 Mehefin, croeso i bawb wrth gwrs.

Ar fore Llun yn ystod y tymor, 'Yr Awr Hapus', 11-12 yng Ngwesty Pentref, fel uchod, gyda Mair, Barbara a Gwilym. Hyfrydwch yw datgan bod yr awr yr un mor hapus, os nad hapusach! Rydym wedi bod wrthi bellach ers dros 6 blynedd a hanner – dyna dros 270 awr hapus erbyn hyn, mae'n siwr! Mae'r gefnogaeth yn dda iawn eleni, 9, 15, 13, 15, 15, 12, 19, 15, 12, 15, 16, 15, 18, 14 a 15. (Bobol bach, rwy'n cael llawer llai na hyn mewn oedfeuron ar y Sul!)

Rydym newydd ddathlu ein hawr hapusaf o'r cyfan, baswn i'n mentro dweud. Ar fore Llun, 21 Ebrill, daeth 'Seren' Ynysybwl, Nansi Valentine, dim ond 95 oed a'i merch Elisabeth. Cafodd 16 ohonom gyfle i gyfarch Nansi yn Gymraeg. Roedd 5 arall o'r cwmni arferol ar goll. Uchafbwynt y cyfan oedd gwrando ar Nansi yn sefyll ar ei thraed

Gig Cymorth Cristnogol yng Nghlwb Ifor Bach, Caerdydd

Agorwyd drysau Clwb Ifor Bach ar gyfer noson arbennig i gefnogi Wythnos Cymorth Cristnogol ar nos Sadwrn Mai 17. Wedi siom tîm pêl droed Caerdydd yng nghwpan yr FA, roedd hi'n braf gallu anghofio'r boen yng nghwmni rhai o sêr mwyaf y sin gerddoriaeth Gymraeg.

Roedd yna gymysgedd o gerddoriaeth gwerin, pop ac electronica ar gael, gyda thri o'r artistiaid yn mwynhau llwyddiant yn neg uchaf siart C2 ar hyn o bryd. Messner (sef Owain Roberts o Fangor) oedd y cyntaf ar y llwyfan, yn canu caneuon o'i albwm 'em am'. Gyda'i laptop a'i gitâr a'i synau meddal, llwyddodd Owain gael y crowd yn barod am noson o gerddoriaeth wych. Yna roedd hi'n amser dawnsio yng nghwmni'r grŵp pop electronig, Clinigol! Sŵn newydd i'r sin Gymraeg, cymysgodd Clinigol ganeuon poblogaidd gan Madonna ac Eurhythms i'w

ac yn adrodd o'i chof gyfres o benillion o'r enw 'Diolch am y gwahoddiad.' Canon ni wedyn 'Ar lan y môr,' 'Hob y Deri Dando' a 'Chalon Lan.' Roedd hon yn awr fawr iawn. Diolch hefyd i'r Parch Dafydd Henri ac Enid, Radur, am dalu ymweliad.

Tynnwyd degau o luniau. Ond mae'n siwr taw'r darlun o Nansi, 95 oed heb anghofio'r 52 diwrnod ychwanegol ers Dydd Gŵyl Dewi, a Rhydderch, 3 mis oed, merch Catrin o Landaf, wyneb newydd ar fore Llun, a erys yn fyw yn y cof. Diolch yn fawr i Andrew a Ceri, rheolwyr Gwesty Pentref am y coffi a'r danteithion, ac yn wir, ysgwyd llaw yn bersonol gyda Nansi. Ron nhw eisoes yn gwybod bod V.I.P. o Ynysybwl ar y ffordd! Roedd hi'n wyntog a gwlyb tu allan ond dyma beth oedd awr gofiadwy i dwymo'r galon a'r enaid!

Diolch hefyd i Gwenllian Willis, swyddog dysgwyr Eisteddfod Genedlaethol 08 am ei hymweliad, 14 Ebrill. Llwyddodd i'n perswadio i gystadlu fel Côr Yr Awr Hapus ym mhabell D y dysgwyr ar brynhawn Gwener, 8 Awst. Edrychwn ymlaen yn ddiolchgar ac yn hyderus i nifer pellach o oriau hapus.

Os am wybod mwy, bydd croeso i chi gysylltu gyda Gwilym Dafydd, 20657108 neu galwch i'n gweld.



Clinigol



Messner

caneuon eu hunain.

Ar ôl dawnsio, mae angen ymlacio, a does dim ffordd well i wneud hyn nac yng nghwmni Gwyneth Glyn. Perfformiodd Gwyneth yn rali newid hinsawdd Cymorth Cristnogol yng Nghaerdydd diwedd haf 2007, a pherfformiodd hi'r gân ysgrifennodd hi'n arbennig ar gyfer yr achlysur yna, 'Gaea'n Gynnar'. Y brodyr Ynyr ac Eurig o Brigyn daeth â'r noson i ben gyda chaneuon o'r albwm newydd, 'Brigyn 3'. Roedd yna awyrgylch dda yn y clwb a'r gynulleidfa yn amlwg yn mwynhau'r cymysgedd o gerddoriaeth oedd ar gael, ac i gyd er lles achos da.

Gwobr i gwmni dylunio

Ar nos Wener 23ain o Fai yn y CIA cynhaliwyd Gwobrau Busnes y Western Mail 2008, llwyddodd Elfen i gipio wobwr Cwmni Dwyethog y Flwyddyn. "Mae'r tuexedo wedi bod allan yn aml dros y flwyddyn diwethaf ac yr ydym wedi llwyddo mewn gwobrau dylunio rhyngwladol, 'roedd y gwobrau yma ychydig yn wahanol i ni oherwydd yr oeddent yn canolbwyntio ar busnesau gorau Cymru. Enillodd BT a HSBC y wobwr yn y gorffennol, felly yr oedd yn fraint i ni derbyn y wobwr yma" dywedodd Guto Evans Cyfarwyddwr Elfen.

Yr oedd y wobwr yn cadarnhau ymrwymiad Elfen i gyfathrebu effeithiol dwyethog, ac yn cydnabod bod Elfen dros y ddegawd diwethaf wedi helpu cwmniau i gyfathrebu'n effeithiol, drwy gyfrwng dylunio graffeg a brandio.

Newyddion o'r Eglwysi

Eglwys y Crwys

Y Grŵp Merched

Ar ddydd Sadwrn Mai y 10fed aeth y grŵp yma ar ei daith flynyddol i Abertawe i ymweld ag Amgueddfa'r Glannau yn ogystal â Chanolfan Dylan Thomas, cafwyd hwyl yn ail edrych ar rai o'r trysorau a gysylltir â diwydiannau'r ardal yn ogystal ag ymweld â chanolfan y bardd a rois i Gymru y ddrama radio anfarwol honno Dan y Wenallt. Yma hefyd y cafwyd pryd o fwyd blasus cyn mynd ymlaen i'r Mwmbwls i fwynhau ychydig o awel y môr a hufen iâ blasus "Joel".

Taith Gerdded

Ar fore Llun Gŵyl Banc Calan Mai trefnwyd taith gerdded hynod lwyddiannus gan Hanna a David Jones ar y bryniau rhwng Mynydd Caerffili a Rhydri. Ar gychwyn y daith daeth cyfle i rannu gair o ddefosiwn cyn troi am y llwybrau a'r safle picnic oedd yn dynodi ei bod yn amser cinio. Diwrnod a fwynhawyd mewn tywydd hyfryd.

Miri Mawl

Ar fore Sul y 18fed o Fai aeth nifer o aelodau'r Capel a'r Ysgol Sul i lawr i'r Bae i ymuno yn y canu a drefnwyd gan y Pwyllgor Mawl. Cafodd yr aelodau hŷn gyfle i ymuno mewn ambell ddawns a neilltuir fel arfer i oedran iau, tra i eraill fwynhau gwranddo ac ymuno yn ysbryd yr emynau a genid i gyfeiliant grŵp a ffurfiwyd i hyrwyddo y canu.

Cyngerdd

Nos Wener Ebrill 25ain o dan nawdd y Gymdeithas gwahoddwyd Aelwyd Waun Ddyfal Caerdydd i gynnal cyngerdd yn y Capel a chafwyd ganddynt noson gofiadwy wrth iddynt rannu o'u doniau ieuanc gyda chynulleidfâ werthfawrogol. Cafwyd ganddynt amrywiaeth mewn cyflwyniadau hen a newydd, boed hynny ar lafar, ar gân neu yn offerynnol. Fel cyd-ddigwyddiad i hyn i gyd cafwyd dadansoddiad manwl yn rhifyn cyfredol Y Gadwyn o darddiad yr enw Y Waun Ddyfal gan Yr Athro Gwynedd Pierce.

Hysbysebwrch yn

y dinesydd

Cylchrediad eang yn y
ddinas a'r cylch ac ar y we

www.dinesydd.com

Ffôn: 029 20565658

Tabernacl, Yr Ais

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Lisa Tiplady a Sion Edwards ar enedigaeth Hanna, chwaer fach i Elen. Hefyd, llongyfarchwn Angharad Tomos ac Aled ar enedigaeth Lili Nel, chwaer fach i Maggie Gwen.

Swydd Newydd

Rhannwn lawenydd Iona Hughes ar ei hapwyntiad fel tiwtor y Gymraeg i oedolion yn y Brifysgol, Caerdydd. Heriodd ei hafiechyd a mynnu bod yn drech na'i hamgylchiadau.

Un arall a dderbyniodd gyfrifoldeb ychwanegol yn ddiweddar yw Sara Pickard. Etholwyd hi fel cyngorydd ar gyngor cymuned ei hardal ym Mhentyrch. Dyma dystiolaeth bellach o frwydro yn erbyn yr elfennau a chynnig esiampl dda i bawb sy'n dioddef anfanteision bywyd. Rydym mor falch o'r ddwy ohonynt.

Pencampwraig ffensio - Hannah

Williams o Gyncoed

Mae nifer o deuluoedd yr eglwys yn medru ymfalchïo yn llwyddiannau eu plant ym myd y campau. Camp newydd i gael sylw yn y Tabernacl yw ffensio ac mae Hannah wedi profi ei hun yn gryn arbenigwraig. Daeth i'r brig mewn cystadleuaeth yn ddiweddar yn ei hadran dros Gymru gyfan.

Y Gymdeithas

Diolch i holl swyddogion y Gymdeithas am eu gwaith yn ystod y flwyddyn. Bu Alan ac Alwen Kemp yn ddygn wrth eu gwaith fel cadeirydd ac ysgrifennydd, gan sicrhau rhaglen safonol ac amrywiol gydol y flwyddyn.. Bellach mae'r cyfrifoldebau yn cael eu trosglwyddo i Margaret Rees a Iona Hughes. Cyngerdd Cantemus oedd y noson gyhoeddus olaf, ac roedd y côr ar eu gorau. Diolch i Iwan Thomas am gadeirio'r noson.

Cronfa'r Organ

Hoffai Huw Thomas, Cadeirydd Cronfa'r Organ, ddiolch i'r aelodau a chyfeillion y Tabernacl am eu diddordeb, eu gweithgarwch, a'u cyfraniadau yn yr ymgyrch i godi £100,000.

Oedfa Brynhawn y Zennana

Cynhaliwyd oedfa ddifyr yn y festri ar brynhawn Mercher Ebrill y 23ain, pan drosglwyddodd Mrs Enyd Arfon Jones lywyddiaeth Zennana y Cylch i ddwylo Mrs Enid Edwards. Cafwyd anerchiad difyr gan genhades o Afghanistan yn sôn am ei gwaith fel nyrs gymunedol mewn ardal ddiarffordd yn y wlad. Diolch i

Ebeneser, Heol Siarl

Cyngherddau

Roedd llawr y capel yn llawn ac ambell un wedi mentro i'r galeri ar nos Wener, 9fed Mai pan gynhaliwyd cyngerdd yng nghwmni Côr Polyffonig Caerdydd, dan arweiniad Neil Ferris. Cawsom ddatganiadau o ddarnau ysgafn a chlasurol yn yr hanner cyntaf, cyn iddynt ganu'r prif ddarn yn yr ail hanner, sef Requiem Faure. Yr unawdwyrgwahoddedig oedd, Peter Horton, bariton, a Fflur Wyn, soprano. Canodd Fflur Wyn nifer o eitemau unigol, ysgafn a chlasurol hefyd gan ein swyno â'i llais a'i dawn. Llanwyd y capel gan sain melfedaidd telyn Elinor Bennett wrth iddi chwarae nifer o ddarnau, o'r cof, fel petai hi a'r delyn wedi'u plethu'n un. Diolch i Robin Jones am lywyddu'r noson. Gan fod y noson wedi'i noddi gwnaed elw teilwng o £2000 ar gyfer ein helusen am eleni, 'Cancer Care Cymru'.

Yn dilyn gwasanaeth y bore, ar fore Sul, 18 Mai cynhaliwyd cyngerdd gan blant ac ieuencid yr ysgol Sul. Cafwyd parti canu hwiangerddi gan y plant ieuengaf, a datganiadau offerynnol, pres, chwythbrennau a llinynnol, heb sôn am unawdau a llefaru gan y plant hŷn. Roedd pawb wedi'u swyno a'u synnu gan ddawn pob un o griw'r ysgol Sul. Drwy gyfraniadau gwirfoddol am gyngerdd gwych gan y plant, codwyd £133 ar gyfer yr elusen. Da iawn wir a diolch am barodrwydd y plant, bob amser, i wneud eu rhan.

Bedyddiadau

Yn ystod mis Mai cynhaliwyd dau fedydd yn Ebeneser. Ar fore Sul 4ydd Mai bedyddiwyd Cai Llywelyn Campbell, brawd bach Eiriana a mab Lona a Ceri, Pontprennau. Ar brynhawn Sul 11eg Mai bedyddiwyd Beca Haf James, merch Lisa Mair a Steven James. Hi yw wyres gyntaf Arwel ac Eleri Peleg Williams.

wragedd y Tabernacl am ddarparu lluniaeth ar ddiwedd y gwasanaeth.

Dathliad pen-blwydd yn 80 oed

Ar Fai'r 8fed fe ddathlodd Morfudd Jones, sy'n byw yng nghartref Gofal Tŷ Draw Rd, ei phen-blwydd yn 80 mlwydd oed. Bu'n gyfyng iawn arni ac mae hi a'i phriod Gethin yn gwerthfawrogi cefnogaeth eu plant Hywel a Sioned a'u teuluoedd. Er bod llesgedd yn cyfyngu ar ei symudiadau corfforol, mae Morfudd yn effro iawn i bopeth sy'n digwydd yng Nghaerdydd a ledled Cymru.

Minny Street, Caerdydd

Cydymdeimlo

Cofiw'n yn ddiolchgar am ffyddlondeb a chyfraniad Rachel Thomas (Parc y Rhath), un o'n haelodau hynaf, fu farw ym mis Ebrill.

Bedydd

Braf oedd tystio i fedydd Heledd Fflur Tywyn – merch Carwyn a Kathryn, sydd nawr yn byw ym Mhorth Tywyn, ar fore Sul Mai 18^{fed}.

Priodas

Llongyfarchwn Bethan Thomas a Huw Bannister ar eu priodas ym Minny Street ddydd Sadwrn, Mai 17^{eg}.

Mabolgampau

Ganol Mai daeth nifer o deuluoedd gyda phlant oed Ysgol Gynradd i Barc Cefn Onn i ddilyn trywydd taith gerdded wedi ei threfnu gan John Albert Evans. Wedi cerdded o'r maes parcio i ben uchaf y Parc, ac i gae agored, cafwyd cystadlu brwd mewn "Mini Mabolgampau"! Roedd cystadlaethau amrywiol ar gyfer pob oedran - gan gynnwys y rhieni - a mawr fu'r hwyl a gafwyd gan bawb.

Taith Haf y Gymdeithas

Gydag addewid o dywydd braf a the blasus i gynnwys tarten llus ac afalau, arweiniwyd llond bws o'r aelodau ar "drywydd yr hil am Mrychan Dir" gan Havard a Rhiannon Gregory pnawn Sadwrn, Mai 10^{fed}. Cafwyd cyfle i werthfawrogi'r gwaith coed arbennig, y nenfwd hardd a'r ffenestr liw er cof am y Parchg Arthur Jones, tad Iwan Jones, yng Nghapel y Plough, Aberhonddu. Ymlaen wedyn i'r Eglwys Gadeiriol gyda'i bedyddfaen unigryw hynafol, y garreg "creset" lle llosgwyd canhwylau mewn canrifoedd a fu a'r capeli wedi eu henwi ar ôl cymdeithasau crefftwyr y Canol Oesoedd. Yn Llanfilo gwelwyd un o'r hen eglwysi plwyf mwyaf prydferth a gafodd ei hatgyweirio a'i hadfer i'w hen ogoniant rhai blynyddoedd yn ôl. Cyfle yma i werthfawrogi'r hen borth, sgrin, llofft y grog a'r meinciau ynghyd â'r nifer tabledi coffa ar y muriau. A chyn dychwelyd i Gaerdydd, Eglwys odidog y Fenni. Amhosibl peidio sylwi ar y bedyddfaen anferth gyda'i clawr ar gadwyn hir yn hongian o'r nenfwd, y cerfluniau niferus o fewn yr Eglwys - gan gynnwys y cerflun unigryw o Gyff Jesse mewn derw - ynghyd â'r beddfeini. Gwerthfawrogwyd yn fawr drefnu trylwyr a gofalus Havard a Rhiannon ar gyfer y daith arbennig hon.

Salem Treganna

Cyngerdd Cordydd yn Salem

19 Mehefin 2008

Dewch yn llu i gyngerdd Cordydd yn Salem ar 19 Mehefin, sef nos Iau am 7.30.

Pris tocynnau: £5 i oedolion, £2 i blant.

Derbyn Aelodau Newydd

Croeso mawr i Rhianydd a Dafydd a'r plant, a ddaeth yn aelodau yn Salem yn ystod y mis.

Miri Mawl

Fore Sul, y 18ed o Fai, daeth plant ysgolion Sul Caerdydd at ei gilydd yn y Lanfa, yng Nghanolfan y Mileniwm, i ganu i gyfeiliant band hynod o fywiog. Cawsom fore hwyliog, ac roedd y plant wrth eu boddau'n canu ac yn dawnsio. Diolch i bawb am gefnogi.

Tymor Criced

Mae tymor criced Salem wedi dechrau yn ystod mis Mai, ac fe gafwyd gêm yn erbyn Brigâd Dàn De Cymru, ar faes Eglwys y Gadeirlan. Cafwyd noson ddymunol iawn. Mae gemau wedi eu trefnu'n wythnosol nawr drwy gydol y tymor, felly dewch i gefnogi! Gobeithio na fydd y tywydd yn amharu gormod eleni ar yr hwyl!

Plasmawr yn ymweld a Salem

Daeth blwyddyn 7 i ymweld a Salem ac i holi Evan am ei waith yma yn Salem yn ystod mis Mai, fel rhan o'u gwaith Addysg Grefyddol yn yr ysgol. Roedd y plant yn fywiog ac yn llawn brwdfrydedd, ac yn amlwg wedi mwynhau'r ymweliad.

Pob lwc

Rydym yn dymuno'n dda iawn i'r ieuencid yn ein plith sy'n wynebu cyfnod prysur yr arholiadau yn ystod y deufis nesaf. Pob dymuniad da i chi i gyd - ry'n ni'n meddwl amdanoch!

Cymorth Cristnogol

Ymunodd nifer o aelodau Minny Street gydag aelodau Eglwys Cymraeg y ddinas ym more coffi a ffair flynyddol Cymorth Cristnogol yn Ffestri Ebeneser, Heol Siarl ar Sadwrn olaf Wythnos Cymorth Cristnogol. Diolch i bawb wnaeth gyfrannu tuag at ein stondin.

Cwmni Drama

Llongyfarchwn aelodau'r Cwmni Drama ar gael eu dewis i fynd â'u cyflwyniad o "Dydd y Cymod" ymlaen i gystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol - dymunwn lwyddiant pellach iddynt yn y Brifwyl.

Bethel, Rhiwbeina

Croesawyd aelodau'r Eglwys Fethodistaidd ym Morgannwg i Gymanfa Ganu dan arweiniad Dr. Richard Elfyn Jones a Mrs Gill Elfyn Jones oedd wrth yr organ. Croesawyd pawb i'r Gymanfa gan y Gweinidog, y Parchedig T. Evan Morgan a chymerwyd y rhannau arweiniol gan bedwar o aelodau Ysgol Sul Bethel, Hannah, Elen, Sylvan ac Osian. Diolch iddyn nhw ac i'r sawl fu'n paratoi te blasus ar ôl yr oedfa.

Cafwyd orig hynod o ddifyr yng nghwmni aelodau Aelwyd y Waun Ddyfal. Mr Gwilym Roberts oedd llywydd y noson ac mi aeth yr elw i gronfa'r Eisteddfod Genedlaethol.

Dymunir yn dda i Mr R. Emrys Jones, Sully, a fu yn Ysbyty Llandochau am rai wythnosau. A dymunir yn dda hefyd i bawb arall a fu'n wael yn ddiweddar.

Newyddion Da i Gynulleidfaedd Eglwys

Cyhoeddwyd *Salmau Cân Newydd* gan Wasg Gomer, campwaith y Parchedig Gwynn ap Gwilym yn diweddar.

Ni chyhoeddwyd fersiwn pwyntiedig o'r salmau a'r cantiglau yn y *Beibl Cymraeg Newydd* ac er mwyn canu'r salm, rhaid troi yn ôl at yr hen gyfieithiad. Meddai Gwynn "Yr unig ffordd o gael cynulleidfaedd i ganu'r salmau unwaith eto yw darparu fersiwn mydryddol cyfoes." Dyna fwrriad y llyfr *Salmau Cân Newydd*, a gyda'r salmau yn rhan bwysig o bob gwasanaeth eglwysig, fe fydd y gyfrol hon, sy'n cadw mor agos â phosib at destun y *Beibl Cymraeg Newydd*, i'w chroesawu'n fawr.

Awgrymir tôn arbennig uwchben pob salm - tonau bywiog ar gyfer salmau llawen neu fuddugoliaethus, a thonau arafach a thawelach ar gyfer salmau mwy myfyrgar neu drist

Cymerodd Gwynn dair blynedd i gwblhau'r salmau cân ac mae'n ddiolchgar iawn i Archesgob Cymru am ganiatau iddo gael cyfnodau i fwrdd o'i ddyletswyddau fel Swyddog Iaith yr Eglwys yng Nghymru, i ganolbwyntio ar y prosiect.


Mae *Salmau Cân Newydd* yn gyfrol gynhwysfawr a defnyddiol i Gristnogion Cymraeg mewn eglwys, capel a gymanfa ac yn llyfr i'w ddarllen a myfyrio dros ei gynnwys unrhywle.

Salmau Cân Newydd

Gwynn ap Gwilym

£9.99 clawr caled, Gwasg Gomer

LLYFRAU NEWYDD YN CYNNIG CIP AR GYMRU A'R GYMRAEG




Mae cyfres newydd o lyfrau yn cael eu cyhoeddi gan Wasg Gomer, Llandysul sydd wedi eu creu'n arbennig ar gyfer rhoi cymorth i ddysgwyr Cymraeg wella eu hiaith drwy droedio'r ardal leol gan gynnig cyfle i ddysgu am hanes a thirwedd yr ardal yn ogystal â'r iaith.

Mae'r gyfres yn cynnwys **Mynyddoedd mawr** sydd yn bwrw golwg ar dir a phobl ardal Eryri tra bod **O'r tir** yn edrych ar fywyd cefn gwlad yng ngogledd Cymru. Edrych ar fywyd a thirwedd Cymoedd y de wna **Cip ar y cymoedd** ac mae'r llyfr cyntaf yn y gyfres, **Dilyn dwy afon** yn edrych ar drefi a phentrefi sy'n gorwedd ar lannau'r afonydd Teifi a Thywi gan ddilyn yr afonydd o'u tarddiad i'r môr gan fwrw golwg ar hanes, y tir, cynnyrch a thraddodiadau lleol ar y ffordd.

"Wrth siarad â grwpiau o ddysgwyr a thiworiaid, dw i wedi sylweddoli dros y blynyddoedd fod cryn alw am y math yma o lyfr, un sy'n helpu dysgwyr sydd wedi bod yn dysgu Cymraeg am ryw flwyddyn neu ddwy i symud ymlaen gyda'u sgiliau ieithyddol," esbonia awdures tri allan o'r pedwar llyfr, **Elin Meek**, sydd wedi addasu ac ysgrifennu sawl llyfr yn ogystal â Chwrs Mynediad Cymraeg i Oedolion CBAC. Awdures y pedwerydd llyfr, **Cip ar y cymoedd**, yw **Carole Bradley** sy'n Diwtor Hyn yng Nghanolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd a Bro Morgannwg.

Mae'r gyfres hon yn cyflwyno gwybodaeth ar wahanol strwythurau, o ffeithiau diddorol i baragraffau llawn, ac

CROESAIR Rhif 85 gan Rhian Williams



Atebion i:
22, Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd. CF14 6AN i gyrraedd erbyn 20 Mehefin 2008.

Ar Draws

6. 'Prynu'n bywyd, talu'r dyled
A'n _____ ei Hun' D.J. (7,1'1,4)
8. Efallai ganwyd o' yn anhwylyd (7)
9. '_____ a'm twyllodd, a bwyteais innau' (Genesis -BCN) (1,4)
10. Dillad yn dechrau sychu yn y coed (5)
12. Cario 150 sy'n oernadu (5)
13. Eos yn dal eithafion chwannen yr hwyr cyn neithwr (5)
15. 'Mae carcharorion angau
Yn ___ o'i cadwynau' (E.R.) (5)
16. Cefnogwr ariannol a ddwrn agored (5)
17. Ai yma mae copa'r coed? (7)
19. 'Nid oes noddod fel yr _____ tir a môr.' (E.W) (3,10)

I Lawr

1. 'Crwydro am oes lle y mynno ei hun
A ___ lle mynno Duw' (Eifion Wyn) (4)
2. Symud drwy'r awyr er anghraifft o gwmpas Harri wedi naw. (6)
3. Ffrwyth a chanol egr i'w dynnu (4)
4. Cynnwys anfad i ddymuno dileu (6)
5. Mae hon a gwisg Rufeinig ger San Francisco (8)
6. Nyddu gwlan i anog colli ffydd (11)
7. A ddaw ffwr clyd y dyn o'r fro yma? (6,5)
11. Ffresni ieir dardd o'u penbleth! (8)
12. Gorehudd annymunol (3)
14. Grymus ar yn ail yn lleidrethio hanner cant (6)
15. Gwareiddio wrth godi yng ngerddi Lôn y Dail (6)
17. Disglair yw pres Ifor ac yn ail (4)
18. Deuparth ein ddoe yw meddiant (4)

o gwestiynau i gyfweiliadau â phobl leol. Y bwriad yw rhoi cymorth i'r darllenwr ddysgu Cymraeg mewn sawl modd, gyda geirfa allweddol ar bob tudalen. Mae naws arbennig pob ardal hefyd yn cael ei phwysleisio yn y lluniau hyfryd sydd i'w cael yn y llyfrau.

Mynediad i Gymru: Dilyn Dwy Afon, Afon Tywi ac Afon Teifi

Mynediad i Gymru: O'r tir, Byw yn y wlad

Mynediad i Gymru: Mynyddoedd mawr, Eryri a'i phobl

Elin Meek. Gomer £4.99

Mynediad i Gymru: Cip ar y cymoedd, Ddoe a heddiw

Carole Bradley. Gomer £4.99

Atebion Croesair Rhif 84

Ar draws: 1 Poced. 7 Argraffu. 9 Cynutwr. 10 Gwerthaf. 11 Diawl. 12 Yn dawnsio. 16 Cyflymdra. 21 Neidr. 22 Alabama. 24 Ddurio. 25 Gweithle. 26 Gosod.

I Lawr: 1 Pacedi. 2 Cynhaeaf. 3 Detgly. 4 Bargod. 5 Iaith. 6 Ffurio. 8 Gwelw. 13 Nam. 14 Awr. 15 Soniarus. 16 Clapgi. 17 Ymaith. 18 Diadell. 19 Analog. 20 Erioed. 23 Awen.

Derbyniwyd 12 ymgais a 9 yn hollol gywir. Danfonir y to cyn llyfr i Heledd Hall, Treganna. Cafwyd yr atebion cywir eraill gan Mel Dunsford, Gwenda Hopkin, H O Hughes, Dilys Pritchard-Jones, Buddug Roberts, Eleri Sheppard, Huana Simpson a James Wiegold.



Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Caerdydd

Maes C – cerddi, comedi, craic....

Sefydlwyd Maes C - safle adloniant gyda'r hwyr yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol - yn 2002, ac ers hynny mae'r ddarpariaeth wedi mynd o nerth i nerth. Bwriad Maes C yw darparu amrywiaeth o nosweithiau hwyliog i Steddfotwyr o bob oed; yn enwedig y rhai sydd efallai'n teimlo braidd yn rhy hen erbyn hyn i fentro i Faes B, sef y safle ieuenctid. Lleolir Maes C unwaith eto eleni yn y maes carafannau, sydd ar gaeau chwarae Blackweir - lleoliad gwych ac o fewn taflad carreg i'r prif Faes. Bydd y pafiliwn eleni yn fwy nac erioed ac yn gwegan dan yr holl adloniant llenyddol, cerddorol a chomedïol - a bydd bar hwyr ar gael bob nos.

Dyma rhagflas o rhai o'r nosweithiau.

Cerddi Caerdydd - Noson yn cyflwyno rhai o feirdd disgleiriaf y ddinas a thu hwnt. Gyda Catrin Dafydd, Gwyneth Glyn, Rhys Iorwerth, Owain Rhys ac eraill. Trefnir gan Academi a Thŷ Newydd.

Hanner Pei – Cyfle unigryw i fwynhau un o brif fandiau'r 90au.

Beirdd yn y Doc – Bydd y Prifardd Emyr Lewis yn dwyn Eurig Salisbury, Emyr Oernant, Iwan Rhys, Dafydd John Pritchard, Hywel Griffiths, Reynolds, Aneurin Karadog ac eraill o flaen eu gwell. Trefnir y noson gan Barddas gyda chefnogaeth yr Academi.

Clwb Comedi - Stand yp, hi hi, stand yp ha ha, stand up rollo chwerthin....

Stomp y Steddfod - Noson fawreddog o farddoniaeth, chwerthin a chardiau lliw. Un bardd ar bymtheg yn cystadlu am y gorau i ennill y stôl, dan arweiniad y Stompfeistr Arwel "Pod" Roberts.

Mae yna gynnig arbennig ar gyfer prynu tocynnau ar gyfer sawl digwyddiad. Cysylltwch â'r Eisteddfod ar 029 2076 3777 neu'r Academi ar 029 2047 2266 am ragor o fanylion ac i archebu'ch tocynnau.

A wyddoch chi fod gŵyl gerddoriaeth Gymraeg fwyaf y cymoedd yn cymryd lle yr haf hwn ar eich stepen ddrws? Wedi'i threfnu gan Gymdeithas Gymraeg Beddllwynog gyda chymorth Menter Iaith Merthyr Tudful ymlith perfformwyr yr ŵyl fydd rhai o sêr mwyaf byd cerddoriaeth Cymru.

Bydd yr ŵyl yn dechrau am 7.00yh ar 20fed Mehefin pan fydd Dafydd Iwan, Heather Jones ac Alun Tan Lan yn perfformio yn Neuadd y Gweithwyr, Beddllwynog (Bedlinog).

Ar Nos Sadwrn 21ain Mehefin bydd cyfle i brofi doniau sîn gerddoriaeth gyfoes Cymru wrth i Frizbee, Mattoidz a'r adnabyddus Hanner Pei berfformio ar lwyfan Neuadd y Gweithwyr am 7.00yh, tocynnau ar gael am £6 yr un!

Bydd cyfle i brofi actiau diweddaraf y sîn gerddoriaeth gyfoes yn ystod gig Cymdeithas yr Iaith ar y Dydd Sadwrn 1.00yp tan 6.00yh yn y Clwb Rygbi sydd yn rhad ac am ddim. Hefyd bydd digwyddiad ar gyfer teuluoedd ar y Dydd Sadwrn 10.30yb – 1.00yp yn Neuadd y Gweithwyr pan fydd Martyn Geraint yn diddanu'r plant. Sesiwn gerddoriaeth werin a gynhelir yn Nhafarn y Rheilffordd o 2.00yp tan 5.00yp fydd yn dod ag adloniant y penwythnos i ben ar Ddydd Sul 22ain Mehefin.

I archebu tocynnau neu am ragor o wybodaeth ffoniwch Gymdeithas Gymraeg Beddllwynog ar 01443 710653. Neu

www.cymdeithasgymraegbeddllwynog.co.uk

gwasanaeth cyfieithu prysg

CYNORTHWY-YDD GWEINYDDOL

(Amrediad cyflog £13,000-£17,000)

Dyddiad cychwyn: 1 Medi 2008

Y prif ddyletswyddau fydd rhoi trefn ar y gwaith sy'n dod i mewn, a'i baratoi i'w roi ar amserlen waith y dydd ynghyd â delio gydag ymholiadau cleientiaid.

Bydd angen sgiliau cyfrifiadurol a chyfathrebu graenus, a'r gallu i reoli gwaith a gweithredu'n llwyddiannus fel rhan o dîm. Darperir hyfforddiant yn ôl y galw.

Am ffurflen gais a swydd ddisgrifiad cysylltwch â Nia McLellan ar 029 2066 8081.

Cewch ragor o fanylion am y cwmni ar www.prysg.co.uk



Ysgol Gyfun Bro Morgannwg

Theatr Ieuenctid Cymru

Llongyfarchiadau gwresog i Dyfed Cynan, disgybl ym mlwyddyn 12 ar gael ei ddewis i Theatr Ieuenctid Cymru. Wedi cyfres o glyweliadau a gweithdai a gynhaliwyd yng Nghanolfan y Mileniwm, llwyddodd Dyfed i ennill lle gyda'r cwmni dethol hwn. Dewiswyd 45 o bobl ifanc rhwng 16 a 22 mlwydd oed o Gymru benbaladr. Bydd y cwmni yn perfformio cynhyrchiad dwyieithog gan Manon Eames yn Theatr Clwyd, Theatr y Werin a Theatr y Sherman yn gynnar ym Mis Medi. Dewiswyd Becky Gillard, disgybl arall o flwyddyn 12 yn eilydd i'r cwmni. Dyfed oedd un o brif gymeriadau Sioe gerdd yr ysgol Amser Maith Ymlaen, Rhagfyr diwethaf a gwelir ef yn y llun, yn chwarae rôl Aron.



Sioe Amser Maith Ymlaen

Sgiliau Allweddol

Mae disgyblion o flynyddoedd 7 ac 8 wedi mwynhau'r profiad diweddar o gymryd rhan yn rhaglen Sgiliau Allweddol Cynhwysfawr yr ysgol. Achredwyd disgyblion y chweched dosbarth yn ddiweddar mewn sgiliau datrys problemau a gweithio ag eraill, tra bod disgyblion CA3 wedi mwynhau casglu tystiolaeth ar gyfer portffolios gwella perfformiad neu weithio ag eraill.

Give Racism the Red Card

Ymwelodd cyn bêl-droediwr proffesiynol Leroy Rosigner â'r ysgol yn ddiweddar i ddwyn sylw at yr ymgyrch Give Racism the Red Card. Mwynhaodd aelodau o dimau pêl-droed sgwrsio gydag ef a elwa o'i brofiad wrth iddo eu hyfforddi ac arddangos rhai sgiliau newydd iddynt.

Cwpan Caerdydd 2008-BI10



Hatrick o fuddugoliaethau yn y cwpan

Mae record anhygoel tîm pêl-droed y Fro yn parhau Am y drydedd flwyddyn yn olynol enillodd tîm blwyddyn 10 Gwpan Caerdydd a'r Fro gan guro Tîm Esgob Llandaf o 7 gôl i 3. Methodd tîm blwyddyn 9 o drwch blewyn i ailadrodd llwyddiant blwyddyn 10 gan iddynt golli yn yr amser ychwanegol i dîm ysgol Uwchradd Llanishen. Mae'r tîm yma hefyd wedi ennill y gwpan yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mr Richard Chidley sy'n hyfforddi y ddau dim.

CRYF yn codi dros £100,000

Mae'n dyled fel ysgol yn fawr i'r gymdeithas rieni CRYF sydd wedi llwyddo i godi dros £100,000 i'r ysgol mewn saith mlynedd. Rydym yn hynod ddiolchgar i'r holl wirfoddolwyr am eu gwaith caled.

Adeiladu Pontydd

Mwynhaodd blwyddyn 8 y profiad arbennig a gawsant yn ddiweddar o weithio fel tîm a phrofi ffydd ei gilydd wrth iddynt adeiladu pontydd. Trefnwyd y weithgaredd gyda chydweithrediad ICE-Wales.



Tom Whitmarsh-Knight

Y Gymraeg mewn Gofal Iechyd



Yr ennillydd yng Nghynhadledd a Seremoni Wobrwyo y Gymraeg mewn Gofal Iechyd 2008 – 'Dysgu gan Eraill' eleni yn Rhanbarth De Ddwyrain Cymru, oedd Ysbyty Athrofaol Cymru, Caerdydd - Gaenor Mai Jones

Y prif amcan oedd i greu DVD Cymraeg â deunydd addas ar gyfer rhieni ac aelodau o'r staff sy'n delio â babanod a phlant ifanc sy'n cael llawdriniaeth ar y trachea. Fel canlyniad, cafwyd argraff gref ar unigolion ac mae'r DVD yn enghraifft o'r gallu i hyrwyddo yr iaith Gymraeg gan ei fod yn bwysig sylweddoli mai Cymraeg yw iaith gyntaf llawer ac weithiau unig iaith rhai o blant yr ardal.

Y Fagloriaeth Gymreig

Mae'r criw cyntaf o ddisgyblion o flwyddyn 12 sydd wedi astudio Bac yn prysur ddod at ddiwedd eu cwrs. Yn ogystal â'u pynciau galwedigaethol ac academiaidd, mae y disgyblion wedi cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau sydd wedi cyfoethogi eu profiadau megis ymweld â Pharc Treftadaeth y Rhondda. Fel rhan o'r Bac, mae y disgyblion wedi bod yn astudio Sbaeneg, ac fe fwynhawyd fore tapas i ddathlu eu sgiliau ieithyddol.



Llwyddiant Rhyngwladol

Ymfalchïwn yn llwyddiant Tom Whitmarsh-Knight o flwyddyn 12 sydd wedi ei ddewis i gynrychioli tîm traws gwlad Cymru. Rhedodd mewn ras yn Nulyn yn ddiweddar.

Merched y Wawr, Cangen Radur 7 Mai 2008

“Mynd am Dro” oedd yr enw swyddogol a roed i'r noson hon, pawb yn rhyw ddisgwyl rhoi un troed o flaen y llall a mynd, ond nid fel na bu hi - ond fe fuom ni hwnt ac yma yng nghwmni tair o'n haelodau a chael bod yn rhan o gyfrinachau, a hynny heb symud o'r fan. Ond busnes yn gyntaf, fe aed trwy'r broses o ddewis Swyddogion am y Flwyddyn '08-09 yn wyrthiol o ddiffwdan, ac yn y parodrwydd yma i gymryd at waith, death yn amlwg pam fod ein cyfarfodydd yn gymaint o bleser. Llywydd y Flwyddyn fydd Mary Wiliam, ac y mae ganddi ddim cryf i fynd a ni at lwyddiant eto. A son am lwyddiant, 'roedd hi'n dda gallu rhoi clap i aelodau Tim y Gangen am fod yn Bencampwyr (am yr ail dro) yng Nghystadlaeth Cwis Cenedlaethol M.Y.W. Cawsom wybod bod Eirllys (T.J.) Davies wedi ei dewis i fod yn gyfrifol am ddatblygiadau yn Rhanbarth y De Ddwyrain - llaw gadarn a dweud y lleiaf! Edrychwn ymlaen at ein dyfodol.

A nawr at yr elfen “Mynd am dro”. Roedd tair aelod wedi derbyn y sialens o siarad (am ryw 10 munud yr un) i fynd â ni am dro i rywle o'i dewis Carys Pugh Williams, o berfeddwlad Meirion, Valerie Scott o Lambed, Ceredigion a Carys Tudor o Dreffynnon, Fflint fu'n tywys, ac fe aed â ni i fannau ac at drysorau diddorol. A phan gofiwn ni fod byd Cerdd Dant, Theatr mewn Addysg a Mathemateg yn cael ei gynrychioli yn y tair yma fe fydddech chi'n tybied y byddai y sgysiau yn cadw at yr arbenigedd - ond nid felly bu hi, a chafwyd gwedd anhygoel yn llwybrau'r “daith” bersonol. Rhoddodd Carys (P) gip i ni ar bersonoliaeth a byd Brenhines y Delyn Deires. Aeth Carys (T) â ni i ganol brwydrau, llwyddiannau a'r hwyl o sicrhau Addysg Gymraeg yn Sir y Fflint a Chlwyd, ac fe aeth Valerie ar daith ddi-fathamategol i fyd y theatr. Diddorol i ni yng Nghanen Radur oedd y wybodaeth mae cymar un o'n haelodau oedd y cyntaf i drosi drama Americanaidd i'r Gymraeg - ac y mae'r troswr yn dal i fyw yn Radur. Yr oedd gweld gwaith ysgrifenedig yn llaw Nansi Richards yn brofiad da, ac yr oedd gwybod nad oedd hi'n fawr o gwe nac yn un o Dywysogesau'r Dwster a'i bod hi bob amser yn gwisgo het “diddorol” yn ei gwneud yn berson o gig a gwaed (diolch byth!).

Cwmni Radio Newydd

Gall y Dinesydd ddatgelu bod cwmni o Gaerdydd yn datblygu cwmni Radio Bro Cymraeg newydd.

Cafodd y manylion eu datgelu yng nghyfarfod Cwlwm Busnes Caerdydd.

Dywedodd un o sylfaenwyr Goriad FM, Aled Glynne, wrth aelodau'r Cwlwm Busnes bod hwn yn gynllun arloesol a fydd yn rhoi hyfforddiant i bobol mewn gwahanol rannau o'r wlad ac yn darlledu i wahanol gymunedau.

Mi fydd Goriad FM yn mynd i bedair ardal y flwyddyn. Bydd nifer o bobol yn y cymunedau hynny'n cael hyfforddiant mewn sgiliau radio ac yna bydd Goriad FM yn darlledu rhaglenni Cymraeg i'r ardal honno am fis.

Ychwanegodd Aled ei fod wedi datblygu'r syniad ar y cyd â'i wraig, Afryl a hynny drwy gyfuno'i phrofiad hi mewn addysg a'i brofiad yntau yn y byd darlledu. Gweithiodd Aled i'r BBC am dros 28 mlynedd a bu'n Olygydd BBC Radio Cymru rhwng 1995 a 2006.

Mae Goriad FM Cyf. wedi ei sefydlu'n Gwmni Cydweithredol ac mae ganddo dri chyfarwyddwr ar y bwrdd rheoli. Blod Jones (Cadeirydd), Wyn Penri Jones (Trysorydd) a Gwion ap Rhisiart.

Wrth annerch Cwlwm Busnes Caerdydd, dywedodd Aled Glynne bod y cwmni yn y broses ar hyn o bryd o wneud ceisiadau am grantiau a nawdd. “Mae hwn yn gyfnod cyffrous iawn,” meddai, “a da ni'n gobeithio y bydd y cynllun yn rhoi'r hyder i siaradwyr a dysgwyr Cymraeg o bob math o gefndiroedd i ymgeisio am swyddi yn y byd darlledu.”

P'un o'n siaradwyr fu'n perfformio ar Gambo (cert) am 11 o'r gloch y nos - mewn Anterliwt rwy'n brysio i ddweud, a hynny o flaen tŷ Nansi Richards? A pha un o'r tair siaradwraig fu mewn cyfyng gyngor â chlawdd anystywallt pan oedd hi newydd basio ei phrawf gyrru. Hynny ar ei ffordd i Langeini yn 1963, i gymryd rhan mewn drama?

Ac fe gawsom dipyn o syndod o ddeall nad oes sôn am Dr. Haydn Williams, Cyfarwyddwr Addysg Sir Fflint, arloeswr ac ymladdwr dros y Gymraeg o fewn cloriau'r Bywgraffiadur Cymraeg.

Fe allwn i ddweud mwy, ond gobeithio môd i wedi rhoi blas bach o'r wledd a gawsom wrth “Fynd am Dro”.



Cymdeithas Cymru - Ariannin yn ehangu

Cynhaliwyd cyfarfod yn festri Capel Salem Treganna ar y 29 Ebrill i sefydlu Cangen y De o Gymdeithas Cymru Ariannin. Daeth llawer ynghyd i'r cyfarfod hwn. Etholwyd Gwilym Roberts yn Gadeirydd, Rhys Llewelyn yn Is Gadeirydd, Angharad Rogers yn ysgrifennydd a Bob Pugh yn Drysorydd. Etholwyd Miriam Tilsley, Sandra de Pol, Walter Ariel Brooks ac Elvira Moseley yn aelodau o'r pwyllgor. Am ragor o wybodaeth am y Gangen cysylltwch ag angharadrogers@btinternet.com

STIWARDIO

Mae Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn dod i Gaerdydd eleni ac angen gwirfoddolwyr lleol i gynorthwyo gyda Stiwardio yn ystod yr wythnos.

Gallwch gynnig gwirfoddoli i wneud un neu fwy o sesiynau yn ystod yr wythnos rhwng 1af - 9fed Awst.

Bydd sesiwn yn golygu shifft yn ystod un o'r cyfnodau isod:
8.30am - 13.00pm 12.30pm - 18.00pm 17.30pm - 22.00pm

Cynigir tocyn mynediad i Faes yr Eisteddfod (gwerth £12) i bawb fydd yn gwirfoddoli fel stiward a hefyd pryd o fwyd i bob stiward sy'n gwasanaethu am ddwy sesiwn yn olynol.

Am ffurflen cofrestru cysylltwch â Siwan yn Swyddfa'r Eisteddfod siwan@eisteddfod.org.uk neu 02920 763777



Cylch Rhagorol Si-lwli



Mae Mudiad Ysgolion Meithrin yn hynod falch o gyflwyno i Feithrinfa Si-lwli sêl y Cylch Rhagorol, sef tystysgrif sy'n cydnabod rhagoriaeth ym myd gofal ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn y sector gwirfoddol.

Sefydlwyd cynllun "Y Cylch Rhagorol" gan Mudiad Ysgolion Meithrin i achredu ansawdd a chydabod rhagoriaeth y ddarpariaeth a gynigir gan gylchoedd meithrin.

Dywedodd Nerys Mc Kee, Cadeirydd Mudiad Ysgolion Meithrin:

"Mae pwysau cynyddol yn cael ei roi ar ddarparwyr gofal ac addysg y blynyddoedd cynnar i ddangos tystiolaeth o ansawdd uchel eu gwasanaeth a'u gofal. Gwyddom fod llawer o'n cylchoedd yn darparu gwasanaeth rhagorol, ond hyd yn hyn ni fu modd gennym i gydnabod hynny yn genedlaethol. Rydym yn hynod falch o gyflwyno'r sel Cylch Rhagorol i Feithrinfa Si-lwli"

I dderbyn sel "Y Cylch Rhagorol" asesir y cylch gan arolygwyr proffesiynol, annibynnol sydd yn cymryd i ystyriaeth holl agweddau'r Cylch Meithrin gan gynnwys y bobl, yr amgylchedd, a'r profiadau a gynigir i'r plant yn eu gofal. Bydd Cynllun "Y Cylch Rhagorol" yn cydnabod yr elfennau arbennig hyn sy'n cyfuno i greu cylch o ansawdd rhagorol.

Dywedodd Nia Bowen, Perchennog Si-lwli

"Rydym yn falch iawn o'r anrhydedd arbennig yma; mae'n golygu llawr i bawb sy'n ymwneud a'r meithrin. Hoffwn ddiolch i'r staff am eu gwaith caled a'u hymrwymiad dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r plant wrth gwrs yn mwynhau dod yma i ddysgu a chael hwyl trwy chwarae yn y Gymraeg. Mae'n bwysig iawn i gael cydnabyddiaeth cenedlaethol am yr holl waith da, a'r safonau uchel a gynigir yma. Bydd derbyn sêl y "Cylch Rhagorol" yn ein galluogi ni, a chylchoedd eraill a fydd yn derbyn yr un anrhydedd, i gael cydnabyddiaeth genedlaethol, a dangos i rieni a darpar rieni ein bod yn cynnig gwasanaeth rhagorol i'w plant."

LLONGYFARCH ALISON HENSON-JONES

Llongyfarchiadau mawr i Alison, o Riwbeina yn wreiddiol, ar gael ei dewis fel aelod o gorws Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru.

Magwyd Alison yn Rhiwbeina a mynychodd yr ysgol gynradd yn y pentref. Aeth ymlaen i Ysgol Uwchradd Yr Eglwys Newydd a dod yn brif ddisgybl yno. Roedd cerddoriaeth yn ei gwythiennau ers yn blentyn bach pan gafodd ei thrwytho gan ei mam, Dorothy Jones. Wrth gwrs, pan yn ysgol Yr Eglwys Newydd daeth dan ddylanwad Meudwen Davies yr athrawes gerddoriaeth. Anogodd Meudwen Alison i ganu yn y corau ac fel unawdydd tra yn yr ysgol. O'r Eglwys Newydd aeth i Goleg Cerdd a Drama Caerdydd i astudio'r piano ac yna i'r Brifysgol lle cafodd radd mewn Ieithoedd Modern. Daliodd ymlaen i ganu yn y Brifysgol ac wedyn ymunodd â gwahanol gymdeithasau operatig.

Aeth ei gyrfa â hi dros Glawdd Offa i Sussex lle bu'n dysgu Ieithoedd Modern a chanu ar benwythnosau a phan ar wyliau ysgol. Yn y diwedd penderfynodd Alison ddilyn ei breuddwyd i fod yn gantores broffesiynol. Cafodd ei hyfforddi gan y gantores enwog Ameral Gunson a hefyd James Lockard a'r diweddar Paul Hamburger yn Llundain. Daeth tro ar fyd Alison pan glywodd y gantores fyd enwog o Saddler's Wells, Rae Woodland, hi'n canu mewn Dosbarth Meistr a chynnig rhan Orfeo iddi yn Aldeburgh. Erbyn hyn mae Alison wedi cymryd rhan mewn nifer o operâu yn cynnwys, Carmen, Die Fledermaus, La Traviata, a Madam Butterfly. Mae wedi perfformio yn Cafes de L'Opera ac yng nghyngerdd The Three Tenors yng Ngwesty'r Grosvenor yn Llundain. Hefyd mae'n hoff o ganu oratorio ac wedi cymryd rhan yn Requiem Verdi, Dream of Gerontius, gweithiau Bach, Mozart, Prokofiev, Haydn, Rossini, Vivaldi, Schubert a Mendelssohn.

Daeth Alison yn ôl atom i Riwbeina i gymryd rhan yn ein gweithgaredd cyntaf tuag at yr Eisteddfod i ganu mewn cyngerdd gyda Chôr Meibion Cwmbach a dod yn ddi-dâl. Swynwyd y gynulleidfa gyda'i llais melfedaidd.

Soniwyd eisoes fod Alison wedi dilyn un freuddwyd, ond roedd ganddi hi a'i theulu freuddwyd arall, sef cael dod yn ôl i Gymru i fyw ac i weithio a nawr mae'r freuddwyd honno wedi ei

Ffarwel i Casi



Wedi chwe mlynedd o weinidogaethu ar Eglwys Annibynnol Gymraeg y Barri mae'r Parchedig Casi M Jones wedi symud i'r Felinheli yng Ngwynedd. Ar Sul y pasg cynhaliodd ei hoedfa olaf yn y Tabernacl ac wythnos cyn hynny cafodd aelodau'r eglwys gyfle i ddathlu ei chyfnod gyda chyngerdd gan yr aelodau a phryd o fwyd.

Yn ystod ei blynyddoedd yma datblygodd berthynas arbennig gyda'r rhieni ifanc a'u plant rwy ddechrau grŵp Ti a Fi yn y capel a chefnogi'r Ysgol Sul.

Roedd ei gwr, y pachedig Lloyd Jones yn ficer yn y Wig ac mae ef bellach yn ficer yn y Felinheli. Roedd eu mab Dafydd yn ddisgybl yn Ysgol Sant Curiga Tomos yn Ysgol Iolo Morganwg a'r ddau bellach wedi cynefino yn eu hysgolion newydd.

Mae eglwysi Tabernacl, y Barri a Bethel Penarth wedi dod at ei gilydd i sefydlu gofalaeth Bro Morgannwg ac yn chwilio am weinidog ar hyn o bryd.

gwireddu hefyd.

Mae Alison yn gobeithio cael canu mewn cyngherddau gyda chorau neu mewn datganiadau unigol pan ddaw yn ôl i fyw yn y brifddinas.

Pob lwc, Alison a chroeso 'nôl i Gymru.

Technoleg gwybodaeth i Gymru gyfan!

offer cyfrifiadurol | meddalwedd | rhwydweithio | e-bost | gwefannau

CYNNIG ARBENNIG: Laptop Acer Extensa Sgrin 15.4", cof 1GB, disg galed 80GB, DVDRW, Wi-Fi, Windows Vista, meddalwedd Office a gwrth feirws - bargaen am £350 (RRP £425)

Ydych chi eisiau prynu cyfrifiadurol ond ar goll efo'r holl gnignion a'r derminoleg?

Prynwch yn hyderus gan W&G - offer a meddalwedd yr ydym ni yn hapus i'w defnyddio a'u hargymell.

Mae Williams & Gwilym yn darparu offer cyfrifiadurol a chefnogaeth i unigolion a Chwmnïau dros Gymru gyfan.

Oes gennych chi gyfrifiadurol efo problemau?

Cysylltwch â Dilwyn am gyngor neu gwôt:

t: 02921 252299
m: 07976 254446



WILLIAMS & GWILYM

Canlyniadau Eisteddfod yr Urdd Sir Conwy 2008



Llwyfan

Côr (Y.C.) Bl 6 ac iau (Ysg. hyd 150)
1af, Ysgol Gynradd Iolo Morganwg
Unawd Piano Bl 6 ac iau
2il, Georgia Geary, Ysgol Gynradd Creigiau
Ensemble Offerynnol Bl 6 ac iau
2il, Ysgol Gymraeg Y Wern
Llefaru Unigol Bl 2 ac iau
3ydd, Mia Morgan, Ysgol Gynradd Gymraeg
Pwll Coch
Parti Deulais (Y.C./Adran) Bl 6 ac iau
3ydd, Ysgol Gynradd Iolo Morganwg
Unawd Llinynnol Bl 6 ac iau
2il, Charlie Lovell-Jones, Ysgol Gymraeg Y
Wern
Cerddorfa/Band Bl 6 ac iau
1af, Ysgol Gymraeg Y Wern
Ymgom Bl 6 ac iau
3ydd, Ysgol Gymraeg Treganna
Grwp Dawnsio Disgo Bl 6 ac iau
3ydd, Ysgol Gymraeg Y Wern
Cystadleuaeth Medal y Dysgwyr
1af, Rachel Perry, Ysgol Uwchradd Caerdydd
Unawd Chwythbrennau Bl 7-9
2il, Luis Miles Evans, Ysgol Gyfun Bro
Morgannwg
Unawd Telyn Bl 7-9
1af, Benjamin Creighton-Griffiths, Ysgol y
Gadeirlan (Cathedral)
Grwp Dawnsio Disgo Bl 7, 8 a 9
2il, Ysgol Gyfun Plasmawr
Cystadleuaeth y Fedal Ddrama
1af, Huw Alun Foulkes, Aelwyd Y Waun
Ddyfal
2il, Elis Meredydd Gomer, Aelwyd Y Waun
Ddyfal
Unawd Merched Bl 7-9
2il, Lisa Medi Williams, Ysgol Gyfun Bro
Morgannwg
Monolog Bl 10 - 13
2il, Dyfed Cynan, Ysgol Gyfun Bro
Morgannwg
Unawd Merched Bl 10-13
3ydd, Ffion Perrett, Ysgol Gyfun Bro
Morgannwg
Unawd Llinynnol Bl 10 -13
3ydd, Luc Morris, Ysgol Gyfun Bro
Morgannwg
Dawns Werin Bl 10 - 13
3ydd, Ysgol Gyfun Bro Morgannwg
Dawns Werin Unigol i Fechgyn 15 - 25 oed
2il, Gareth Rhun Jones, Aelwyd Y Waun
Ddyfal
Cystadleuaeth y Goron
2il, Ceri Elen, Aelwyd CF1
Unawd allan o Sioe Gerddorol 19-25 oed
3ydd, Anni Llyn, Aelwyd Y Waun Ddyfal
Ensemble Lleisiol (Aelwyd) 14-25 oed*
1af, Aelwyd Y Waun Ddyfal
Côr Merched S.S.A. (Aelwyd) 14-25 oed*
2il, Aelwyd CF1
Côr S.A.T.B. (Aelwyd) 14-25 oed*
1af, Aelwyd Y Waun Ddyfal
Unawd Offerynnol 19 - 25 oed
2il, Bethan Semmens, Aelwyd CF1



**Rachel Perry, Ysgol Uwchradd Caerdydd,
enillydd Medal y Dysgwyr**

Deuawd, Triawd neu Bedwarawd Cerdd Dant
19 -25 oed
3ydd, Elliw, Anni, Huw, a Steffan, Aelwyd Y
Waun Ddyfal
Parti Cerdd Dant (Aelwyd) 14 - 25 oed
1af, Aelwyd CF1
3ydd, Aelwyd Y Waun Ddyfal
Llefaru Unigol 19 - 25 oed
2il, Anni Llyn, Aelwyd Y Waun Ddyfal
Grwp Llefaru (Aelwyd) dan 25 oed
1af, Hwntws, Aelwyd Y Waun Ddyfal
2il, Gogs, Aelwyd Y Waun Ddyfal
Dawns Werin dan 25 oed* (Aelwyd)
3ydd, Y Waun Ddyfal "A", Aelwyd Y Waun
Ddyfal
Dawns Stepio i 2, 3 neu 4 12 - 25 oed
1af, Cerian a Bethan, Aelwyd Y Waun
Ddyfal

Canlyniadau Gwaith Cartref Cenedlaethol 2008

Barddoniaeth Bl. 3 a 4
2il Catrin Lord, Ysgol Gynradd Gymraeg
Pwll Coch
3ydd Dewi Richards, Ysgol Gynradd
Gymraeg Pwll Coch
Rhyddiaith Bl. 2 ac iau
3ydd Cerys Davage, Ysgol Gymraeg Melin
Gruffydd
3ydd Siôn Thomas, Ysgol Gynradd Gymraeg
Pwll Coch
Rhyddiaith Bl. 10 ac 11 (D)
1af Katie James, Ysgol Uwchradd Howell
2il Grace Shaw, Ysgol Uwchradd Howell
2il Angharad Thomas, Ysgol Uwchradd
Howell
Rhyddiaith Bl. 12 a 13 (D) 1af Rachel Perry,
Ysgol Uwchradd Caerdydd
2il Siân Fullerton, Ysgol Uwchradd Caerdydd
Cyfansoddi Sgript Wreiddiol Bl. 7, 8 a 9
2il Lisa Medi Jones, Ysgol Gyfun Glantaf
Cyfansoddi Sgript Wreiddiol Bl. 10-13
1af Rebecca Thomas, Ysgol Gyfun Glantaf
2il Branwen Bennell, Ysgol Gyfun Glantaf
3ydd Siôn Davies, Ysgol Gyfun Glantaf

Gwaith Creadigol 3D Bl. 3 a 4
1af Clara Hall, Ysgol Gynradd Albert
Serameg / Crochenwaith Bl. 5 a 6
3ydd, Betsan Jenkins, Ysgol Gynradd
Gwaelod Y Garth
3D Cywaith Bl. 6 ac iau (Angh. Arb.) (D)
1af, Uned Anghenion Arbennig Coed y Gof,
Ysgol Gymraeg Coed y Gof
Pyped Bl. 5 a 6
2il, Owen Harries, Ysgol Gymraeg Y Wern

CANOLFAN MILENIWM CYMRU YN ENNILL GWOBWR 'THEATR FWYAF CROESAWGAR PRYDAIN'

Mae Canolfan Mileniwm Cymru wedi ennill gwobr Theatr Fwyaf Croesawgar Prydain. Enillodd y Ganolfan wobwr Cymdeithas Rheolaeth Theatr 2008 am ansawdd uchel ei wasanaeth i'r cyhoedd.

Derbyniodd tîm rheoli'r Ganolfan y Wobr – 'Oscar' y diwydiant – yng nghinio blynyddol y TMA yng nghalon ardal theatrau Llundain.

Roedd pedair theatr ar draws y DU ar y rhestr fer yn y categori hwn, ond cryfder a dyfnder cyflwyniad y Ganolfan a fu'n fuddugol.

Dywedodd Prif Weithredwraig y Ganolfan, Judith Isherwood, "Rydym wrth ein bodd ein bod wedi ennill y wobwr bwysig hon. Rydym wedi darparu croeso twym galon Gymreig i dros bedwar miliwn a hanner o ymwelwyr ers i ni agor ein drysau llai na phedair blynedd yn ôl.

"Rydym yn ymdrechu'n galed i ddarparu'r gwasanaeth gorau oll i'n cwsmeriaid ym mhob ffordd, o'r funud y dânt i mewn trwy'r drws. Mae'r wobwr yn amlygu gwaith caled pob aelod o staff y Ganolfan a'r ymdrech yr ydym yn ei wneud i fod y theatr fwyaf croesawgar yn y DU."

Yn bedair oed eleni, mae Gwobrau Rheolaeth y TMA yn dathlu rhagoriaeth yn yr amrywiol ddisgyblaethau rheolaeth o fewn y celfyddydau mynegiannol. Maent wedi sefydlu eu hunain fel dull pwysig o gydnabyddiaeth gyhoeddus am safon uchel y gwaith sydd yn cyfrannu tuag at lwyddiant parhaus y diwydiant.

Mae Gwobr y Theatr Fwyaf Croesawgar yn cydnabod cyflawniadau theatr, canolfan gelfyddydau neu leoliad unigol wrth ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'r cyhoedd.

2D Tecstilau Bl. 3 a 4
3ydd, Lois Aled, Ysgol Gynradd Iolo
Morganwg
3D Tecstilau Bl. 2 ac iau
2il, Ffinli Barber, Ysgol Gynradd Creigiau
Print Lliw Bl. 2 ac iau
1af, Elinor Haf Roderick, Ysgol Gymraeg
Treganna
Print Lliw Bl. 3 a 4
2il, Andrew Salter, Ysgol Gynradd Albert
Gwaith Lluniadu 2D Bl. 7 ac 8
1af, Rebecca Bethan Jones, Ysgol Gyfun
Glantaf
Gemwaith Bl. 7 ac 8
2il, Nia Meleri Hughes, Ysgol Gyfun Bro
Morgannwg

PASPORT

Merch o Geredigion – Yvonne Evans – sy'n cael ei holi'r mis yma...



O le wyt ti'n dod yn wreiddiol?

Cefais fy magu yn Aberaeron, Ceredigion.

Ym mha ran o Gaerdydd wyt ti'n byw?

Dwi'n byw yn Grangetown.

Ers faint wyt ti'n byw yng Nghaerdydd?

Dwi wedi byw yng Nghaerdydd ers 12 mlynedd.

Beth fuest ti'n ei wneud cyn [neu] ar ôl symud yma?

Bûm yn byw yn Aberaeron gyda fy rhieni a fy chwaer tan oeddwn yn 18 oed. Ar ôl sefyll fy arholiadau safon A yn Ysgol Gyfun Aberaeron symudais i Gaerdydd i astudio'r Gymraeg yn y Brifysgol. Tra roeddwn yn fyfyrwraig bum yn lwcus i gael y cyfle i dreulio amser yn ystod yr Haf yn 1997 i weithio ar gynllun 'Camp America' yn Nhalaith Efrog Newydd. Fy ngwaith ar y campws oedd chwarae cerddoriaeth ar yr orsaf radio a chynnal gweithdai cynhyrchu rhaglenni radio i'r plant oedd yn preswyllo yno. Roedd o'n gampws ar gyfer plant Iddewig oedd yn byw yn Efrog Newydd, a chefais y cyfle i werthfawrogi a chael blas o fywyd Iddewiaeth. Blwyddyn yn ddiweddarach yn ystod Haf 1998 teithiais ar hyd gwledydd Dwyreiniol yr Affrig gan ddechrau ar fy nghrwydr yng Nghenia a gorffen yn Ne'r Affrig. Cefais brofiadau bythgofiadwy wrth i mi wersylla mewn caeau bywyd gwyllt, cael blasu sbeisys ar ynys Zanzibar a chael taith hofrennydd dros 'Victoria Falls'. Ar ôl graddio treuliais flwyddyn yn dilyn cwrs ymarfer dysgu yn Athrofa Prifysgol Caerdydd. Bum yn athrawes yn Ysgol Gynradd Gymraeg Bodringallt, Ystrad Rhondda am ddwy flynedd a hanner. Roeddwn yn dysgu plant blwyddyn 4 a hefyd yn gyfrifol am Addysg Gorrfforol yr ysgol. Ers 2003 dwi wedi bod yn gweithio fel ymchwilydd ar gyfer rhaglenni BBC Radio Cymru.

Beth wyt ti'n hoffi ei wneud yn dy amser hamdden?

Yn fy amser hamdden dwi'n mwynhau

cadw'n heini ac wrth fy modd yn cymryd rhan mewn amryw o chwaraeon. Dwi wedi cynrychioli Cymru mewn rhedeg traws-gwlad ac wedi chwarae rygbi cyffwrdd dros Gymru hefyd. Roeddwn yn arfer cystadlu yn gyson mewn pencampwriaethau rasys athletau 800m a 1500m ond erbyn hyn mae'n fwy tebygol i chi fy ngweld yn eu gwyllo nhw!

Dim ond yn ddiweddar dwi wedi ail-ddechrau gwneud mwy o ymarfer corff wedi i mi gael anaf i fy mhen-glin wrth chwarae rygbi cyffwrdd. Dwi wrth fy modd yn gwyllo gemau rygbi boed ar y teledu neu wrth ymyl y cae chwarae. O bryd i'w gilydd dwi'n chwarae pêl-feddal, a dwi hefyd yn mwynhau mynd ar daith gerdded ac yn ymlacio wrth ddarllen. Peth arall sydd yn bwysig i mi yn fy amser hamdden ydy cymdeithasu gyda fy nheulu a fy ffrindiau.

Be sy'n gwneud i ti chwerthin?

Mae'n beth llesol iawn i chwerthin a gwenu yn aml, fel mae'r dywediad Saesneg yn ei ddweud 'os ydych yn gwenu mae'r byd yn gwenu gyda chi!' Mae bod yng nghwmni plant fy ffrindiau yn gwneud i mi chwerthin, maent yn gweld y byd trwy lygaid hollol wahanol i oedolion. Mae clywed fy mab-bedydd yn dweud straeon llawn dychymyg i mi gan iddo feddwl fy mod yn credu pob gair yn gwneud i mi chwerthin.

Oes yna fannau yng Nghaerdydd wyt ti'n hoffi mynd iddynt? Pam?

Dwi'n hoff iawn o ymweld â Llyn Parc Y Rhath. Mae'n le hardd iawn ac yn ddelfrydol i fynd i redeg ac i gerdded. Dyma oedd un o'r llefydd cyntaf i mi ymweld pan symudais i Gaerdydd a bum yn byw ger y Parc am flynyddoedd tra roeddwn yn fyfyrwraig. Fy hoff beth am y lle ydy cael hufen-ia o'r fan hufen-ia sydd wastad yno! Blasus iawn!

Lle wyt ti'n hoffi mynd am wyliau?

Mae unrhyw le yn gwneud y tro! Dwi'n mwynhau mynd i lefydd yng Nghymru a

Ysgol Pencae

Pennaeth a Dirprwy Bennaeth - Medi 2008

Llongyfarchiadau i Richard Thomas ar ei benodiad fel Pennaeth yr ysgol ac i Lisa Mead ar ei phenodiad fel Dirprwy Bennaeth yr ysgol. Pob dymuniad da i'r ddau ohonynt.

Ymweliad athrawon Lesotho

Braf oedd croesawu Me Mpomane a Me Moabi, dwy athrawes o ysgol yn Lesotho atom am wythnos. Cafodd y ddwy profiad cofiadwy iawn yn yr ysgol, yn arbennig y noson gymdeithasol a drefnwyd ar eu cyfer. Yn ystod y noson, cafodd rhieni a chyfeillion yr ysgol gawl i'w fwyta, cyfle i ddawnsio gwerin a gwrando ar ddau o gantorion dawnus yn canu. Diolch i Bethan Reynolds a Bethan Davies, dwy athrawes o'r ysgol, am drefnu'r holl weithgareddau ar eu cyfer.



Ymddiriedolaeth cŵn

Daeth aelod o'r Ymddiriedolaeth cŵn atom i rannu gwybodaeth am bwysigrwydd gofalu am gŵn. Codwyd £300 trwy werthiant teganau cŵn.

hefyd i wlad sydd yn wahanol iawn i'm gwlad i! Bum i'r India am bythefnos i ymweld â'm chwaer yn ystod mis Ionawr eleni a braf oedd cael gwerthfawrogi diwylliant a ffordd o fyw mor lliwgar a gwahanol. Dwi wedi bod ddwywaith i'r Algarve ym Mhortiwgal gan ei fod yn le hyfryd i gael ymlacio.

Beth ydi'r peth mwyaf unigryw am Gaerdydd? Pam?

Y peth mwyaf unigryw am Gaerdydd yn fy marn i ydy bod Stadiwm y Mileniwm yng nghanol y ddinas. Mae cymaint o bobl sydd yn ymweld â'r lle yn aml yn sôn am leoliad perffaith y stadiwm - dwi'n cytuno cant y cant!

Lle wyt ti'n gweld dy hun mewn deng mlynedd?

Dwi'n gobeithio mewn deng mlynedd y byddaf yn fyw ac iach ac yn hapus.

Gŵyl Ifan 20-22 Mehefin Hoffech chi ddawnsio neu voulez vous danser?



Fel arfer, pan ddaw'r haf cawn gyfle i ddiosg gwisgoedd trwm y gaeaf ond eleni da chi cofiwch wisgo'ch fest yn y nos. Dyna ddywedodd y Llydawyr wrtha i - wel roedd 'na sôn am fest ac roedd na sôn am nos ond efallai mai Fest Noz oedd gyda nhw mewn golwg. Ie mae addewid am Fest Noz eleni gyda chriw o Lydawyr o ardal Trebeurden yn dod i ymuno â ni i ddathlu Gouel Yann.

Ar gyfer y 32ain Gŵyl Ifan mae Cwmni Dawns Werin Caerdydd wedi trefnu gwledd o ddawnsio a cherddoriaeth trwy gydol y penwythnos gyda thimoedd dawnsio o bob cwr o Gymru yn ogystal â Llydaw a Chernyw.

Nos Wener bydd cyfle i ymuno yn y ddawns yng Ngwesty'r Angel lle cynhelir y twmpath agoriadol ac arddangosfa gan y tîm o Lydaw. Yna fore Sadwrn 21 Mehefin cynhelir gorymdaith o Stadiwm y Mileniwm ac o flaen y Castell cyn ymgartrefu ar y lawnt o flaen Neuadd y Ddinas. Yma byddwn yn codi'r pawl, a chodi hwyl, ac yn cyddawnsio o gwmpas y pawl. Wedyn bydd y timoedd yn gwasgaru ac yn darparu perfformiadau awyr agored, am ddim, ar draws y ddinas.

Bydd cyfle i eistedd a gwyllo'r timoedd yn mynd trwy eu pethau yng nghyntedd Canolfan y Mileniwm yn ystod y prynhawn, a daw'r diwrnod i ben gyda'r timoedd i gyd yn cyddawnsio gerllaw'r Senedd ym mae Caerdydd. Bydd swper i'r dawnsywyr nos Sadwrn a gobaith efallai am y Fest Noz.

Daw'r ŵyl i'w therfyn fore Sul 22 Mehefin gyda gweithdai dawnsio – yn agored i'r cyhoedd - yng ngwesty'r Angel yng nghwmni'r holl dimoedd. Dyma un o uchafbwyntiau'r ŵyl gyda chyfle i bawb flasu dawnsfeydd o wahanol wledydd.

Mae Gŵyl Ifan yn cael ei chynnal ar benwythnos Mehefin yr 20-22ain. Am fanylion pellach a thocynnau i'r twmpath neu'r gweithdai, cysylltwch ag Elin Angharad ar 02920 618340, e-bostiwch post@gwylifan.org, neu ewch i'r wefan www.gwylifan.org



Dyma Mari, merch Sara a Rhodri Gibson - cafodd ei geni ar 9 Mawrth 2008 ac mae'n lond llaw yn barod!!

Mae Nain a Tadu Radur wrth eu boddau yn ogystal â Mamgu a Tadu Gibson o Benmynydd, Ynys Mon.

Ysgol y Berllan Deg



Blwyddyn 5 ar gopa Mynydd Cribarth

Daeth Pat Arnold o gartref gofal Tŷ Enfys, Pentwyn i sôn am gystadleuaeth yr oeddynt yn ei chynnal. Cafodd disgyblion yr Adran Iau gyfle i dynnu llun neu ysgrifennu stori am y berthynas rhwng cenedlaethau.

Ymwelodd Blwyddyn 1 â Fferm Greenmeadow, Cwmbrân gan ddysgu llawer am yr anifeiliaid, a chafodd y Dosbarthiadau Derbyn gyfle i ymweld â Fferm Cefn Mabli.

Aeth blwyddyn 3 ar drip ysgol yn ddiweddar i Sain Ffagan i ddysgu mwy am y Celtiaid. Mwynhaodd pawb y Pentref Celtaidd yn arw, a bu'n gyfle gwych i ddysgu am sut yr oeddynt yn arfer byw. Daeth Brendan Burns i gynnal gweithdy celf gyda nhw hefyd – bu pawb yn brysur yn peintio ar ganfas.

Treuliodd Blwyddyn 5 ddau ddiwrnod a hanner cyffrous yn aros ar fferm Maes Y Fron, Abercraf ger Abertawe. Cwmni 'Call of the Wild' oedd yn gyfrifol am yr holl weithgareddau oedd yn amrywio o gerdded mynydd, gemau cydweithio,

chwilio am bryfed, dringo clogwyn a sgramblo ceunentydd.

Dyma farn rhai o'r disgyblion:

Gwnes i fwynhau neidio i'r afon ac edrych ar yr anifeiliaid. Hefyd, gwnes i fwynhau dringo lan a lawr y clogwyn. Y peth gorau oedd y cwrs rhwystr.

Lowri Tomkinson

Roeddwn i wedi mwynhau casglu'r llythrennau a chreu y gair Bannau Brycheiniog. Hefyd roedd neidio bant o'r rhaeadr yn gymaint o hwyl. Ond roedd yr anifeiliaid yn cŵl. Roedd y cwrs rhwystr yn ardderchog a'r profiad yn wych.

Elis Jones

Fy hoff beth i yn Call of The Wild oedd y 'Gorge Walking'. Roedd rhaid i ni neidio i mewn i'r dŵr ar y dechrau. Roedd y dŵr yn oer iawn fel neidio i mewn i ddŵr llawn iâ!

Sophie Richards

Fy hoff beth i oedd pan roedden ni wedi gweld yr anifeiliaid.

Elis Rowlands

YSGOL PLASMAWR

Wythnos Cymorth Cristnogol

Eleni cafodd pob dosbarth cofrestru yr ysgol sialens i godi symiau gwahanol i ariannu prosiectau arbennig: £11 am 300 o goed banana yn Bolivia; £30 am danc dŵr yn Bangladesh neu £51 am hyfforddi arweinydd cymunedol yn Ghana. Roedd y casglu yn hynod lwyddiannus a llwyddwyd i godi £314.32 i gefnogi gwaith yr wythnos! Gwych dros ben!!

Wythnos Cymdeithas y Byddar

Penderfynodd criw bach o ferched o flwyddyn 9, o dan arweiniad Chloe McGlynn, fynd ati i godi arian ar gyfer achos sy'n agos iawn at ei chalon, Cymdeithas y Byddar. Aethant ati i goginio nifer fawr o gacennau i'w gwerthu yn ystod yr wythnos a hybu'r achos mewn gwasanaethau. Llwyddwyd i godi dros £150. Da iawn chi ferched!

Ymgyrch Bwyta'n Iach y BOBs

Ym mis Chwefror, sefydlais i a grŵp o ddisgyblion blwyddyn 10 grŵp newydd yn yr ysgol o'r enw BOBs. Mae'n sefyll am Bwyd o Bwys ac rydym yn gweithio gyda'n gilydd a gyda dietegwyr o'r gymuned a staff ffreutur yr ysgol er mwyn ceisio annog pobl ifanc i wneud dewisiadau bwyd iach a cheisio gwella'r ddarpariaeth bwyd sydd ar gael yn yr ysgol. Hyd yn hyn, rydym wedi gwneud tri sesiwn blasu, sef enchiladas llyisiau, myffins moron ac afal a jambalaya cyw iâr. Rydym ni'n coginio yn ffreutur yr ysgol ac yn rhoi darn o'r bwyd i'n cyd-ddisgyblion am ddim er mwyn cael eu barn. Mae popeth sy'n cael eu paratoi yn fwyd iach ac rydym eisiau annog disgyblion Plasmawr i fwyta diet cytbwys. Os oes llawer yn hoff iawn o'r bwydydd rydym yn ei baratoi yna mae staff y ffreutur yn fodlon ei roi ar y fwydlen. Ar Fai'r cyntaf dewis y dydd oedd yr enchiladas llyisiau gyda salad. Roedd yn llwyddiannus iawn. Rydym hefyd wedi bod yn codi arian i elusen Ymchwil Cancr trwy werthu cebabs ffrwythau amser egwyl ac rydym wedi bod yn cynnal gweithdai bwyta'n iach i ddisgyblion blwyddyn 8.

Carys Yates, bl 10

Y Ffug Dreial

Ar Ddydd Sadwrn y 19eg o Ebrill cystadlodd tair ar ddeg o ddisgyblion blwyddyn wyth Ysgol Plasmawr mewn cystadleuaeth ffug dreial yng Nghastell Nedd. Cafodd y gystadleuaeth ei chynnal

yn llys Ynadon Castell Nedd.

Dewisodd yr athrawon (Miss Morgan Cymraeg a Miss Daniel Saesneg) grŵp o ddisgyblion a oedd yn addas am y rhannau gwahanol o fewn y ffugdriial. Roedd yna bedwar tyst, pedwar cyfreithiwr, dau yn amddiffyn a dau yn erlyn, un tywysydd, un Cynghorydd Cyfreithiol, un arlunydd, un newyddiadurwr ac un disgybl wrth gefn.

Roeddwn yn cystadlu yn erbyn Ysgol Ystalyfera a oedd wedi cystadlu o'r blaen. Ond i Ysgol Plasmawr roedd hwn yn brofiad hollol newydd felly doeddem ni ddim yn gwybod beth i'w ddisgwyl.

Wrth fynd i mewn roedd pawb yn nerfus, ond ar ôl ychydig roedd pawb wedi dod dros eu nerfau ac wedi dechrau mwynhau. Erbyn hanner amser roedd Ysgol Plasmawr ar y blaen gyda phedwar pwynt yn fwy na Ystalyfera. Ond ar ôl brwydro ac ymdrechu gant y cant yn yr ail hanner, cawsom ni ganlyniadau'r gystadleuaeth, ac yn anffodus Ysgol Ystalyfera oedd yn fuddugol, ond dim ond gan un pwynt!

Roedd y profiad yn un bythgofiadwy ac yn gyfle gwych i blant sydd am gael swydd gyda'r gyfraith yn y dyfodol.

Nia John a Megan Clements, bl 8

Cystadleuaeth Coginio'r Urdd

Ar Fai'r 7fed cynhaliwyd rownd De Cymru o gystadleuaeth coginio'r Urdd. Gofynion y dasg ar gyfer blynyddoedd 7,8, a 9 oedd paratoi Byrgyrs o gig oen Cymreig a Salad Salsa Sbeislyd. Daeth Ffion Edmunds a Jodie Davis o flwyddyn 9 i'r brig a byddant yn cynrychioli'r ysgol yn y rownd derfynol ar faes yr eisteddfod yn Llandudno.



Ffion Edmunds a Jodie Davis gyda Dudley Newbury

"Parents Get Lost"!

"Parents Get Lost" yw ystyr gwreiddiol enw gweryll "PGL", medden nhw, a doedd dim un rhiant ar gyfyl y gweryll



Y tîm pêl-rwyd yn Nynfaint

yn Nynfaint pan aeth tîm pêl-rwyd merched blwyddyn 8, Miss Angharad Morgan a Miss Catrin Edwards yno yng nghanol mis Mai. Cystadleuaeth pêl-rwyd oedd pwrpas y daith - ac fe gawson ni gyfle i brofi llawer o weithgareddau anturus gwahanol tra'n bod ni yno. Dechreuodd y penwythnos gyda helpa drysor enfawr ac fe gafwyd llawer o hwyl yn chwilio ar hyd a lled y gweryll. Y bore wedyn, roedd y gweryll yn llawn sgrechfeydd wrth i ni brofi y 'zip wire', cwrs 'abseiling' ac 'aero ball'.

Chwaraeodd y tîm A a'r tîm B bedair gêm ar ddydd Sadwrn, a dwy ar ddydd Sul. Fe enillodd tîm A 3 gêm dan arweiniad y capten Lowri Morgan! Fe fuon nhw'n gyfartal ar un gêm a cholli 2. Fe enillodd tîm B 3 gêm a cholli 3 dan arweiniad gwych y capten Nia John! Ar ôl yr holl chwarae, fe benderfynon ni fynd i'r parc ac fe gawson ni gyd lawer o hwyl yno yn y nos! Roedd yn rhaid codi'n gynnar eto ar fore dydd Sul, i bacio ac i chwarae mwy o gemau a gwneud mwy fyth o weithgareddau. Yna, roedd yn amser i'r athrawon gael gêm o bêl-rwyd ac fe enillodd tîm Miss Morgan a Miss Edwards 5 i 0! Ar ôl penwythnos gwych yn yr haul, roedd yn rhaid ffarfelio a mynd adre i baratoi at yr ysgol ar fore dydd Llun - ac i weld ein rhieni wrth gwrs!

Llongyfarchiadau

I Steffan Lloyd-Evans o Fl 13 ar gael ei dderbyn yng Ngholegau Drama Mountview a Central yn Llundain. Mae cyn-ddisgybl yr ysgol, Rhidian Marc yng Ngholeg Central yn barod, felly dyma'r ail ddisgybl mewn dwy flynedd i gael lle yn un o brif golegau Drama Prydain.

I Tomos Roblin o Fl 8 am wneud yn arbennig o dda yng Nghystadleuaeth Fathemategol 2008 - Y Gymdeithas Wyddonol Genedlaethol - Prifysgol Bangor. Bydd Tomos yn derbyn y wobwr mewn seremoni yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Conwy.

Ysgol Gymraeg Pwll Coch

Croesawu Yr Athro Bellamy

Roedd cyffro mawr yn yr ysgol yn ddiweddar wrth i ni dderbyn



ymweliad gan ddyd enwog dros ben. Yr Athro David Bellamy oedd y gwstai arbennig a ddaeth i'n hysgol er mwyn plannu coed.

Rydym wedi bod yn rhan o brosiect 'Tree Appeal' sy'n helpu ysgolion i ffurfio perthynas gyda busnesau er budd yr amgylchedd. Roeddem yn ffodus iawn i greu perthynas o'r fath gyda'r 'Principality' trwy Mr Jonathan James (tad Tomos Bl.4). Fe dderbyniom 30 o goed ifanc gan gynnwys Derw, Onnen a Helyg. Er mwyn ein helpu gyda'r plannu daeth yr Athro David Bellamy atom gan mai fe sydd yn hyrwyddo'r gwaith 'Tree Appeal'. Fel y dychmygwch roedd David Bellamy yn gwmni diddorol iawn ac roedd y plant wrth eu bodd yn ei gwmni hwyliog. Roedd wedi mwynhau ei ymweliad gyda ni ac yn falch iawn o'n hymdrechion i wella amgylchedd yr ysgol a'n prosiectau amgylcheddol.

Roedd y cyfryngau yn bresennol hefyd - Radio Wales a chriw 'Ffeil' ar gyfer S4C. Cafodd sawl plentyn ei gyfweld.

Diwrnod hanesyddol a difyr iawn!! Gweler lluniau yn yr 'oriel' ar ein gwefan.

'STEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD

Mae beirdd a llenorion o fri ym Mhwl Coch!! Daeth Siôn Thomas yn drydydd yn y gystadleuaeth rhyddiaith i blant bl.2 ac iau.

Cafodd Dewi Richards drydydd yn y gystadleuaeth barddoniaeth i flwyddyn 3 a 4 ac yn yr un gystadleuaeth daeth Catrin Lord yn ail!!

NEWYDDION

Diolch yn fawr i Miss Andrea Turley a Miss Bethan Evans am eu holl gwaith caled gyda ni yn ddiweddar.

Mae Miss Turley yn fyfyrwraig blwyddyn gyntaf o Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd a bu ar ei hymarfer dysgu yn y Feithrin.

Mae Miss Bethan Evans yn dilyn cwrs cynorthwywyr dosbarth yng Ngholeg Glan Hafren.

Pob lwc i'r ddwy ohonoch ar weddill eich cyrsiau!!

Hefyd bu Lowri Martison ac Emily Sigallias o flwyddyn 10 Ysgol Gyfun Plasmawr ar brofiad gwaith yn y Derby a'r Feithrin. Diolch yn fawr i'r ddwy!!

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau mawr i Bethan Jones (bl.6) am gael ei dewis i fod yn un o ferched y ddawns flodau yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd a'r Cylch. Cafodd Bethan ei dewis o blith degau o ferched eraill o ysgolion Cymraeg y ddinas. Bydd hi nawr yn ymuno a Ffion Roblin (bl.6) a Lili Nefydd (bl.5) a gafodd eu dewis yn gynharach yn y flwyddyn.

Cwis llyfrau

Cymerodd ein tîm cwis llyfrau rhan yn ail rownd y gystadleuaeth flynyddol hon yng Nghanolfan Howardian, sef y cyflwyniadau. Diolch yn fawr i Mrs Coulthard, Miss Richards, Miss Jones a Mrs Pike am eu hyfforddi. Roedd y cyflwyniadau dramatig o safon uchel iawn a pherfformiodd y plant yn wych!! Daeth y ddau dîm yn arbennig o dda i ddod yn bedwerydd. Da iawn chi blant!!

Tîm blwyddyn 4: Bethan Allsopp, Elen Evans, Tomos James, Garmon ab Ion, Rhys Morris a Celyn Williams.

Tîm blwyddyn 6: Gruffudd Harries, Bedwyr ab Ion, Elisa Morris, Ffion Roblin, Llŷr Roberts ac Osian Roberts.

CHWARAEON

Rygbî'r Urdd

Chwaraeodd y bechgyn yn dda dros ben gan ennill 2 gêm, 1 gêm gyfartal a cholli un gêm. Cafwyd buddugoliaeth yn erbyn Ysgol Treganna (35-0) gyda Joshua Payne(2), Corey Hallett, Joseph Berry a Harri Symons i gyd yn sgorio ceisiau, a Harri Collins yn trosi y 5 cais hefyd. Fe gurom Ysgol Gwaelod y Garth hefyd (17-0), gyda Corey Hallett (2) a Harri Symons yn sgorio'r ceisiau. Cawsom gêm gyfartal hynod o gyffrous yn erbyn Ysgol y Wern (0-0)!!

Dim ond un gêm a gollwyd a hwnnw yn erbyn Ysgol Eglwys Newydd (0-21). Roeddem o drwch blewyn o gyrraedd y rownd gynderfynol. Diolch i Mr Thomas am eu hyfforddi mor dda.

PÊL-DROED

Chwaraeom 2 gêm yn erbyn ysgol Gynradd Gabalfa ar noson olaf y tymor diwethaf. Cawsom fuddugoliaeth ysgubol yn y ddwy gêm. Enillodd tîm A eu gêm 6-0 gyda Harri Collins (3), Joshua Payne (2) ac Elis Dafydd yn sgorio'r goliau. Enillodd tîm B 5-1 gyda Corey Hallett (2), Jerrelle James (2) a Jac

Taith i Batagonia



Llongyfarchiadau i dair o ferched o Ysgol Plasmawr, Cadi Matthews, Laura Marks a Tanwen Rolph ar gael eu dewis i fod yn rhan o daith Yr Urdd i Batagonia ym mis Hydref 2009. Bydd un ar hugain o ddisgyblion o saith ysgol yn Ne a Gorllewin Cymru yn teithio i'r Wladfa i gyfrannu at godi ymwybyddiaeth o Gymru a'r iaith ymysg ieuenctid yno.

Trefnir y daith gan yr Urdd ac mae'r gwaith o godi arian i gefnogi'r daith yn barod ar y gweill yng Nghaerdydd. Cynhelir Noson Archentaidd / cwis a Barbeciw ar Nos Iau Orffennaf 3 ydd yn Neuadd St. Catherine, Kings Road, Pontcanna am 7 o'r gloch. Am ragor o fanylion a thocynnau ffoniwch 02920 20373517 neu 02920 630657.

Ifan Edwards yn sgorio. Ardderchog!! Y garfan - Rhydian Butler-Rees, Harri Collins, Elis Dafydd, Jac Ifan Edwards, Dominic Francis, Corey Hallett, Gareth Hole, George Leach-Hutchins, Jerrelle James, Evan Musgrave, Christopher Ogbourne, Joshua Payne, Adam Rees, Llŷr Roberts, Alfi Sylvester-Bond a Toby Thatcher.

PÊL-RWYD

Cafodd y garfan pêl-rwyd eu gemau cyntaf yn erbyn Ysgol Melin Gruffudd. Ymdrechodd y merched yn galed iawn. Collodd tîm blwyddyn 6 ond cafodd dîm blwyddyn 5 ganlyniad gwell sef gêm gyfartal 1-1 gyda Gemma Lock yn sgorio i Bwll Coch. Da iawn chi ferched. Hoffwn ddiolch i Mrs Mari Owen (mam Ifan a Tomi), Miss Jones a Miss Richards am hyfforddi'r merched.

Bu Mrs Carys Watts o brosiect P.E.S. (cynllun hyrwyddo ymarfer corff mewn ysgolion cynradd) i'r ysgol er mwyn addysgu cyfres o wersi pêl-rwyd i flwyddyn 5a. Mae'r plant wedi mwynhau yn arw. Diolch yn fawr Carys.

Calendr y Dinesydd

Gwener, 6 Mehefin

'Sain, Cerdd a Sgandal!' Noson gerddorol yng nghwmni Joy ac Alwyn Humphreys. Er budd Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd (Pwyllgor Apêl Cyncoed, Pen-y-lan, Y Rhath a Llanedern). Pris tocynnau: £6 (oedolion yn unig) Am 8.00pm. Manylion pellach: Rhun Jones (029-2075-5118 neu 07710-172206; rhunjones@aol.com).

Iau, 12 Mehefin

Noson yng nghwmni Stuart Burrows yn Neuadd Fawr, Ysgol Howell, Llandaf – am 7.30 pm. Mynediad £10. (Tocynnau gan Gwyn ar 01446 760608). Noson dan nawdd Apêl Llanbedr-y-Fro Eisteddfod 2008.

Iau, 12 Mehefin

Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. 'Eymnau a Thonau'r Tabernacl.' Cyflwyniad gan Rob Nicholls a Robin Gwyndaf yng Nghapel y Tabernacl, Yr Ais,

am 7.30pm. Noson i ddathlu 40 mlwyddiant sefydlu Cymdeithas Eymnau Cymru.

Llun, 16 Mehefin

Cymdeithas Heddwch Undeb Bedyddwyr Cymru. Darlith Goffa Lewis Valentine: 'Rhyfel a Heddwch a Sancteiddrwydd Bywyd' gan Dr Robin Gwyndaf. Yn y Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd, am 4.30pm.

Llun, 16 Mehefin

Cyfarfod Blynnyddol Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Noson yng nghwmni Owen John Thomas, yng nghapel Bethany am 7.30pm.

Iau, 19 Mehefin

Cyngerdd Cordydd yn Salem, Treganna am 7.30pm. Pris tocynnau: £5 i oedolion, £2 i blant.

Sadwrn, 28 Mehefin

Ffair Haf Ysgol Pencae 12—2 pm.

Iau, 3 Gorffennaf

Noson Archentaidd,

Barbeciw a Chwis tuag at Taith yr Urdd i Batagonia. Yn Neuadd St Catherine, Kings Road. Pontcanna. 7 - 10.30. Am docynnau a rhagor o wybodaeth ffoniwch 02920 630657, 02920 373517.

Sadwrn, 5 Gorffennaf

Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Stodin yng Ngŵyl Rhiwbina.

Sul, 6 Gorffennaf

Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Cymanfa Ganu yng nghwmni Côr Aelwyd Hamdden Caerdydd, yng nghapel Beulah am 8.00pm. Arweinydd: Alun Guy. Organydd: Alun Jones.

Llun, 7 Gorffennaf

Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Gwibdaith.

Gwener, 11 Gorffennaf

Arddangosfa o luniau Esther Eckley yn swyddfeydd PRYSG, 15 St Andrews Crescent, Caerdydd am 5.30pm. Agorir gan Dafydd Wigley. Bydd canran o werthiant y noson yn mynd tuag at gronfa Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd.

Llun-Sadwrn, 4-9 Awst

Sherman Cymru/Torri Gair yn cyflwyno 'Yr Argae', cyfieithiad Wil Sam o The Wier gan Conor McPherson, yn Theatr Sherman am 7.45pm. Tocynnau: 029-2064-6900.

Mawrth-Gwener, 5-8 Awst

Theatr Genedlaethol Cymru yn cyflwyno 'Iesu!' gan Aled Jones Williams, yn Theatr Sherman am 7.30pm. Tocynnau: 029-2064-6900.

Iau-Sul, 28-31 Awst

Cyfeillion Carnhuanawc. Gwibdaith Haf Carnhuanawc i Gaeredin a Chanolbarth yr Alban. Amcangyfrif o'r gost: £275 i gyplau; £400 sengl. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Nans Couch: 029-2075-3625 neu Cath Jobbins: 029-2062-3275.

Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 029-2062-8754; ebost:

JamesEW@caerdydd.ac.uk).

Gŵyl Gymraeg Caerdydd
Cardiff's Welsh Language Festival

toffwyl

rhaglen yr wythnos
mehefin 14 – 22 iune 2008

Ffair Taiwyl
Twrnament Pêl-droed i Oedolion
Mini Bach / Gŵyl Feithin
Noson Wyddonol / Bore Cofî Dysgwyr
Cystadleuaeth Touch Rygbi a Golff
Helfa Drysor Hanesyddol / Cwis
Sadwrn Sianel / Cystadleuaeth Criced
Gig Iauentid / Sesiynau Rygbi Tag
Noson Gomedï / Noson Canocï
Fân a Eiz / Gŵyl Iitan / Cyngor Arlannol
Sioe Twm Sion Cati
Taith Gerdded

Prif noddwyr

acen **menter**
Caerdydd

Ffenestri, drysau a tai gwyr o ansawdd

> Stiwdio ddylunio newydd yn Nhre-loan, Caerfyrddin - 5 ystafell haul i'w gweld

> Marciau barcod newydd ar bob ffenestr a drws

> Gwyr newydd sydd yn glanhau ei hun ac yn thermol effeithiol

> Gwefan Gymraeg newydd

- Gwarant deg mlynedd heb ddadl
- Dim costau cudd, dim blaendâl
- Dyfynbris am ddim heb ymrwymiad
- Awdurdodwyd yn llwyr gan Secured by Design

Fel y gwelwyd ar y teledu **itv S4C**

NOLAN UPVC
FFENESTRI - DRYSAU - TAI MAEL

Prif Swyddfa: 1 St Ivel, Heol Llansteffan, Tre-loan, Caerfyrddin, SA31 3BP
Ystafell Arddangos Caerdydd: Y Rhath, Caerdydd.
E-bost: info@nolanupvc.co.uk

Ffôn: 0845 600 90 80 www.nolanupvc.co.uk